


Coleg Gwent


# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2024/25

# ANNUAL REPORT AND ACCOUNTS 2024/25

Blaenau Gwent Learning Zone ❯ Crosskeys Campus ❯ City of Newport Campus ❯ Usk Campus ❯ Torfaen Learning Zone

**RHEOLWYR ALLWEDDOL, BWRDD Y LLYWODRAETHWYR A CHYNGHORWYR PROFFESIYNOL**

Diffinnir Rheolwyr Allweddol fel aelodau o'r Uwch Dîm Arwain (SLT) ac fe'u cynrychiolwyd fel a ganlyn yn 2024/25:




Ceir rhestr lawn o'r Llywodraethwyr ar dudalen 24 o'r datganiadau ariannol hyn. Gweithredodd Mrs Marie Carter fel Swyddog Llywodraethu drwy gydol y cyfnod.

Bancwyr a chynghorwyr proffesiynol y Coleg am y cyfnod oedd:

| | | |
|---|---|---|
| **Archwilwyr Allanol**<br>**Cooper Parry Ltd**<br>**Birmingham** | **Archwilwyr Mewnol**<br>**TIAA**<br>**Caerdydd** | **Bancwyr**<br>**Lloyds Bank**<br>**Caerdydd** |
| **Cyfreithwyr**<br>**Eversheds**<br>**Caerdydd** | **Cyfreithwyr**<br>**Hugh James**<br>**Caerdydd** | **Cynghorwyr TAW**<br>**Centurion**<br>**Caerdydd** |

# CYNNWYS

| EITEM | TUDALEN |
|---|---|


| | |
|---|---|
| Adolygiad o 2024/25 | 1 |
| Datganiad y Gorfforaeth ar reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth y Coleg gyda thelerau ac amodau cyllid Llywodraeth Cymru. | 18 |
| Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol a Rheoli Mewnol | 19 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth | 30 |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol | 32 |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | 36 |
| Datganiad o Newidiadau mewn Arian Wrth Gefn | 37 |
| Mantolenni ar 31 Gorffennaf 2025 | 38 |
| Datganiad Llif Arian | 40 |
| Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol | 41 |

**ADOLYGIAD O 2024/25**

Mae ein Corff Llywodraethu yn falch o gyflwyno ei adroddiad a'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2025. Paratoir y datganiadau ariannol yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102, Datganiad Arferion Argymelledig Addysg Uwch a Bellach (SORP) 2019 a Chyfarwyddyd Cyfrifon Medr 2024/25.

**EIN STATWS CYFREITHIOL**

Sefydlwyd y Gorfforaeth o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ar gyfer y diben o gynnal busnes Coleg Trydyddol Gwent. Mae'r Coleg yn elusen a eithrir ar gyfer dibenion y Ddeddf Elusennau 2011.

Ymgorfforwyd y Gorfforaeth fel Coleg Trydyddol Gwent. Ar 1 Ionawr 2000, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ganiatâd i'r Gorfforaeth newid enw'r Coleg i Goleg Gwent, ystyrir bod yr enw'n cynrychioli'n well yr ystod eang o ddarpariaeth a gynigir gan y Coleg.

**ADOLYGIAD STRATEGOL**

Nodir ein cyfeiriad strategol yn ein Cenhadaeth a'n Gweledigaeth sy'n llywio cynnwys Cynllun Strategol ein Coleg.

## Cenhadaeth

*Newid bywydau drwy ddysgu*

## Gweledigaeth

*Erbyn 2026, Coleg Gwent fydd y Coleg i'w ddewis, yn gweithio'n weithredol gyda'n cymunedau, lle mae'r holl ddysgwyr a staff yn cael eu trin â pharch, yn cyflawni eu potensial llawn ac yn elwa ar yr adnoddau gorau mewn lleoliad dysgu ysbrydoledig.*

Mae'r cyfeiriad strategol a nodir gan y Gorfforaeth yn cael ei arwain gan anghenion ein dysgwyr.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo'n llawn i wrando ar ddysgwyr er mwyn rhoi gwella ansawdd ar waith ac mae llais y dysgwyr yn rhan annatod o strategaeth ansawdd y coleg. Mae dysgwyr yn chwarae rhan weithredol yn natblygiad y coleg.

Mae'r sector AB yn parhau i elwa ar gymorth ariannol rhagorol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Coleg yn cyfarwyddo'r ariannu hwn yn briodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi'n dda o ran eu prif raglenni astudio a'u llesiant.

Mae ein Cynllun Strategol yn cael ei gefnogi gan nifer o strategaethau mewn meysydd penodol, gyda phob un yn cael ei roi ar waith a'i fonitro'n rheolaidd drwy Gyfarfodydd Arwain Uwch rheolaidd a drwy'r Corff Llywodraethu a'i is-bwyllgorau.

Mae'r Coleg wedi cytuno ar gyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol sy'n mesur llwyddiant wrth roi ein dyheadau strategol ar waith.

**BUDD Y CYHOEDD**

Mae’r Coleg yn elusen eithriedig ac yn cael ei reoleiddio gan Medr fel y Prif Reoleiddiwr ar gyfer pob Corfforaeth AB yng Nghymru. Mae corff hyd braich Llywodraeth Cymru, Medr, bellach yn rheoli cyllido a rheoleiddio’r sector addysg drydyddol, yn cynnwys AB, gan ddisodli’r cyfrifoldebau blaenorol a ysgwyddwyd gan Lywodraeth Cymru a’r Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW). Ceir aelodau’r Gorfforaeth, sef ymddiriedolwyr yr elusen, ar dudalen 24 a 25. Wrth osod ac adolygu nodau strategol y Coleg, mae’r Gorfforaeth yn ystyried yn drwyadl canllawiau’r Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd ac yn enwedig ei ganllawiau ar hybu addysg. Mae’r canllawiau hyn yn ei gwneud hi’n ofynnol i bob sefydliad sy’n dymuno cael ei gydnabod fel elusen ddangos, yn hollol glir, fod ei amcanion er budd y cyhoedd. Wrth i’r Coleg gyflawni ei genhadaeth, drwy hybu addysg mae’n darparu’r buddion adnabyddadwy hyn i’r cyhoedd:

- Addysgu o safon uchel
- Ehangu cyfranogiad a mynd i’r afael ag amddifadu ac eithrio cymdeithasol
- Systemau cryf i gefnogi myfyrwyr
- Cofnod cyflogaeth rhagorol i fyfyrwyr
- Cysylltiadau gyda chyflogwyr, y diwydiant a'r byd masnach

Mae sicrhau budd i’r cyhoedd yn cael ei nodi drwy gydol yr adroddiad hwn o’r Gorfforaeth a thrwy'r Coleg yn cyflawni nodau a dangosyddion perfformiad allweddol.

Mae’r Coleg yn defnyddio ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol i fonitro perfformiad ariannol, maent i’w gweld ar Dudalen 3.

Dangosodd berfformiad dysgwyr a pherfformiad ariannol cyffredinol y Coleg welliannau ym mhob elfen o gymharu â’r perfformiad yn 2023/24. Cyflawnodd yr holl ddangosyddion perfformiad ariannol allweddol a’r holl welliannau ym mhob un o fetrigau allweddol canlyniadau dysgwyr.

**PERFFORMIAD Y COLEG**

Mae’r drafodaeth ar dudalennau 3 i 18 yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch perfformiad cyffredinol y coleg ac mae’n ymwneud â’r meysydd allweddol canlynol:


| | |
|---|---|
| Ein Perfformiad Ariannol | Tudalen 3 |
| Ein Dysgwyr | Tudalen 7 |
| Datblygu Cwricwlwm | Tudalen 9 |
| Buddsoddi mewn Staff | Tudalen 11 |
| Buddsoddi yn ein Hystâd, Technoleg ac Adnoddau Ffisegol | Tudalen 13 |
| Partneriaethau | Tudalen 14 |
| Perfformiad Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol | Tudalen 14 |

## EIN PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn adlewyrchu canlyniadau'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2025.

Dylid nodi, er i'r Coleg barhau yn rhan o strwythur Grŵp drwy gydol 2024/25, ni fu unrhyw weithgarwch o fewn yr is-gwmnïau yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn, felly, yn cael ei drafod yng nghyd-destun y Coleg drwy'r adroddiad cyfan.

| | | |
|---|---|---|
| Gwarged Gweithredu | • Targed (£4,150k) v Gwerth Gwirioneddol £944k | ✓ |
| EBITDA | • Targed £916k v Gwerth Gwirioneddol £4,311k | ✓ |
| Cymhareb Gyfredol | • Targed 1.9 v Gwirioneddol 2.38 | ✓ |
| Diwrnodau Arian | • Targed 106 diwrnod v Gwerth Gwirioneddol 111 diwrnod | ✓ |
| Costau Staff fel % o Gyfanswm Incwm | • Targed 72.9% v Gwerth Gwirioneddol 67.2% | ✓ |
| Perfformiad o gymharu â Tharged Cyllido Dysgwyr Llawn Amser | • Target LlA 100.0% v LlA Gwirioneddol 105.0% | ✓ |
| Perfformiad o gymharu â Tharged Cyllido Dysgwyr | • Targed RhA 97.5% v RhA Gwirioneddol 99.2% | ✓ |
| Prif Incwm fel % o Gyfanswm Incwm | • Targed 90.4% v Gwirioneddol 88.4% | ✓ |

Fel y mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol uchod yn ei ddangos yn hollol glir, mae'r Coleg wedi cyflawni ei holl ddangosyddion perfformiad allweddol ariannol ar gyfer 2024/25, gydag EBITDA yn llawer uwch na'r Gyllideb. Bu'r £4.4m mewn grantiau refeniw ychwanegol a dderbyniodd yn ystod y flwyddyn o fudd iddo (gan gynnwys grant cynnal a chadw ôl-groniad gwerth £1.4 miliwn a gefnogodd waith atgyweirio hanfodol). Cafwyd y grantiau hyn gan Lywodraeth Cymru ac fe hysbyswyd y Coleg amdanynt ar ôl i'r targedau Cyllideb gael eu cymeradwyo.

Gwelwyd gwelliant mewn perfformiad yn erbyn targedau dysgwyr gyda'r Coleg yn cyflawni ei dargedau mewnol. Cynyddodd nifer y dysgwyr llawn amser 345 a chynyddodd gwerth cyllido rhaglenni rhan amser, gyda 99.2% o'r cytundeb yn cael ei gyflawni, yn erbyn targed mewnol o 97.5%.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2025, adroddodd cyfrifon rheoli mewnol y Coleg **warged gweithredol o £1,488k.** Yn y tabl ar y dudalen nesaf, nodir cysoniad o'r sefyllfa hon i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr (tudalen 36).

## Cysoniad Cyfrifon Rheoli i Ddatganiad o Incwm Cynhwysfawr

| | Gwirioneddol 2024/25 £k | Gwirioneddol 2023/24 £k |
|---|---|---|
| *(Diffyg)/gwarged gweithredu cyn costau pensiwn nad yw'n arian parod ac eitemau eithriadol* | *1,488* | *(697)* |
| *Llai: Credydau pensiwn nad ydynt yn arian parod* | *(1,245)* | *(628)* |
| *(Diffyg))/gwarged gweithredu cyn eitemau eithriadol* | *2,733* | *(69)* |
| *Costau ailstrwythuro staff* | *(1,796)* | *(1,007)* |
| *Elw ar waredu asedau* | *7* | *3* |
| *Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn* | *944* | *(1,073)* |
| *Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn* | *19,465* | *8,128* |
| *Effaith Cyfyngiad Terfyn Uchaf Asedau* | *(35,055)* | *-* |
| *Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn* | *(14,646)* | *7,055* |

Mae'r gwarged gweithredol o £1,488k yn welliant ar y diffyg gweithredol o £697k a adroddwyd yn 2023/24 ac mae'n adlewyrchu blwyddyn lwyddiannus arall o adfer o ran perfformiad ariannol ers y pandemig.

Yn 24/25, parhaodd Llywodraeth Cymru â'i hymrwymiad i gyllido adfer dysgwyr drwy ddarparu nifer o grantiau. Caniataodd hyn y Coleg i gyllido cymorth ychwanegol mawr ei angen i'n dysgwyr o ran addysgu a dysgu a llesiant a chyfoethogi.

Materion eraill i'w nodi ac y'u hystyrir yn y gwarged gweithredu net yw:

***Costau pensiwn nad ydynt yn arian parod*** - mae'r gwarged ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys credydau nad ydynt yn arian parod o £1,245k (2023/24 - credydau o £628k) a ddaw i law o ganlyniad i adnabod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unol â FRS 102 ac sy'n cynnwys dwy elfen:

| | | |
|---|---|---|
| *Cost FRS 102 dan gyfraniadau* | *(£519k)* | *(23/24 (£345k))* |
| *Credydau cynllun pensiwn* | *(£726k)* | *(23/24 (£283k))* |

Mae newidiadau i ragdybiaethau actiwaraidd a newidiadau i'r farchnad mewn perthynas â'r asedau a ddelir gan y cynllun pensiwn yn effeithio ar gredydau i'r cyfrif incwm a gwariant - mae'r ddau y tu hwnt i reolaeth y Coleg.

***Costau Ailstrwythuro*** **Staff** - mae cyfanswm o £1,796k o gostau (2024: £1,007k) wedi eu hysgwyddo wrth gyllido diswyddiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd cynllun diswyddo gwirfoddol wedi'i dargedu rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2025, gyda'r nod o gynyddu effeithlonrwydd gweithredol coleg cyfan yn 2025/26, a rhoi rhagor o adnoddau i'r gwaith o wella profiadau a chanlyniadau myfyrwyr yn y coleg.

***Croniad tâl gwyliau mwy*** - mae safonau cyfrifyddu yn mynnu bod y Coleg yn ystyried cost unrhyw hawl am wyliau sy'n weddill gan staff wedi'i gronni erbyn diwedd y flwyddyn. Pob blwyddyn, mae'r Coleg yn annog yr holl staff i drefnu eu gwyliau blynyddol drwy system drefnu electronig y Coleg. Ddiwedd y flwyddyn, pennir cost i unrhyw wyliau nas defnyddir gan ddefnyddio cyfradd gyflog ddyddiol pob aelod o staff a'r cyfanswm a ysgwyddwyd yn y datganiadau ariannol blynyddol.

Yn ystod 2024/25, cafwyd cynnydd o £975k yn y crynhoad o dâl gwyliau, gan ddod â chyfanswm y crynhoad i £1,663k. Canlyniad adolygiad o'r dull ar gyfer y croniad amcangyfrifiedig yw'r symudiad mawr hwn y flwyddyn.

**Amcanion a Pholisïau'r Trysorlys**

Rheoli Trysorlys yw rheoli llif arian y Coleg, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad cyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio cyflawni'r perfformiad gorau posibl yn gyson â'r risgiau hynny.

Mae gan y Coleg bolisi Rheoli Trysorlys ar wahân ar waith. Mae'r polisi presennol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn ôl yr hyn a drefnwyd a disgwylir cyflwyno'r polisi wedi'i ddiweddaru i'r Bwrdd ei gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2025.

**Arian Parod**

Balans arian parod y Coleg ar 31 Gorffennaf 2025 oedd £5.9m (2024 - £6.5m). Roedd y gwelliant yng ngwarged arian parod gweithredol y Coleg a'i weithgareddau buddsoddi yn gryfach na'r hyn a gafodd ei gyllidebu ar ei gyfer gan £2.5m, a oedd o gymorth i gyllido buddsoddiad cyfalaf y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd y Coleg £3.5m (2024: £3.1m) mewn adnoddau cyfalaf er budd y dysgwyr a'r staff, ceir manylion hwyrach ymlaen yn yr adroddiad. Y gwelliant yng ngwarged arian parod gweithredol y Coleg a'i weithgareddau buddsoddi. Rhoddodd £20m mewn cronfeydd blaendal tymor byr gyda banciau'r DU, sy'n aeddfedu ym mis Medi 2025, mis Hydref 2025, mis Ionawr 2026 a mis Ebrill 2026, yn unol â'i bolisi Rheoli Trysorlys.

**Effaith costau pensiwn ar ganlyniadau'r Coleg**

Mae'r ansefydlogrwydd sy'n deillio o'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth a nodir yn FRS 102 yn effeithio'n sylweddol ar ganlyniadau'r Coleg. Mae'r safon gyfrifyddu hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Coleg gyfrifyddu cost ei ymrwymiad i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) mewn perthynas â'i staff cymorth busnes. Yn sgil hyn, effeithir newidiadau yn y tybiaethau actiwaraidd a symudiadau'r farchnad ar y costau i'r cyfrif incwm a gwariant a'r rhwymedigaethau neu'r asedau a ddangosir ar y fantolen. Mae'r newidiadau hynny'n ymwneud â'r asedau a ddelir gan y cynllun pensiwn, y mae'r ddau ohonynt y hwnt i reolaeth y Coleg.

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, yn 2024/25, gwelodd y cynllun pensiwn welliant sylweddol arall yn ei sefyllfa gyllido, yn bennaf oherwydd y cynnydd swmpus yng nghyfradd y gostyngiad a gymhwysir i rwymedigaethau cynlluniau'r dyfodol gan fod arenillion bondiau corfforaethol wedi codi (cynyddu o 5.0 i 5.8% yn 2024/25).

Mae'r gwarged ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys credydau nad ydynt yn arian parod o £1,245k (2024 - £628k) sy'n deillio o ganlyniad i gyfrifyddu am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unol â FRS102.

Yn y ddwy flynedd flaenorol, mae'r Coleg wedi cydnabod yr ased pensiwn (£14.2m yn 23/24). Fodd bynnag, ar gyfer 2024/25, mae wedi penderfynu cymhwyso cyfyngiad terfyn uchaf asedau o £35.1m ar yr asedau a gyfrifwyd eu gwerth ac nid yw'n cydnabod dim asedau, gan nad yw'r rhesymeg a dybiwyd yn y ddwy flynedd flaenorol yn berthnasol eleni. Mae'r tybiaethau actiwaraidd ar gyfer y sefyllfa ar 31ain Gorffennaf 2025 yn nodi bod unrhyw fudd economaidd o gyfraniadau'r dyfodol wedi'u lleihau yn cael ei gyfyngu gan y gofyniad cyllido

lleiaf y mae'r Coleg wedi'i ymrwymo iddo. Mae'r Coleg felly wedi cymryd na fydd yn cael gostyngiadau mewn costau gwasanaeth yn y dyfodol o ganlyniad i'r sefyllfa warged newydd.

Mae cymhwyso'r terfyn uchaf pensiwn i leihau'r ased pensiwn i sero yn y fantolen ar 31ain Gorffennaf 2025 (£35.1m) yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan enillion actiwaraidd gwerth £19.5m yn y flwyddyn. Y gostyngiad net yn y cronfeydd hyn o'r symudiadau pensiwn yw £15.6m.

Wrth ystyried effaith y gofynion cyfrifyddu hyn ar sefyllfa ariannol y Coleg, dylid nodi bod pensiynau, oherwydd eu natur, yn rhwymedigaethau hirdymor a bod y Coleg, wrth gyflawni'r rhwymedigaethau hyn, yn talu'r cyfraniadau cyflogwr i'r cynllun pensiwn a bennir gan reolau cynllun y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Perfformiad Talu**

Mae gan y Coleg delerau talu 30 diwrnod safonol gyda'r rhan helaeth o'i gyflenwyr ac mae'n unol â gofynion y Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998. Mae'r cyflenwr yn cael ei wneud yn ymwybodol o'r telerau hyn drwy gael copi o delerau ac amodau'r Coleg gyda phob archeb brynu.

Mae'r cyfrifiad o berfformiad talu, a bennwyd yn wreiddiol yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon, yn seiliedig ar y ffigwr credydwr ar ddiwedd y flwyddyn, ac ar 31 Gorffennaf 2025 roedd y ffigwr yn 1 diwrnod (2024 - 1 diwrnod).

**EIN DYSGWYR**

**Niferoedd Dysgwyr**

Yn 2024/25 Coleg Gwent oedd y Coleg o ddewis i 16,571 o ddysgwyr (2023/24 - 15,446):

| Addysg Bellach llawn Amser | Rhan Amser | Cymuned Oedolion | Prentisiaethau | Addysg Uwch |
|---|---|---|---|---|
| 6,780 | 5,227 | 3,225 | 585 | 754 |
| (23/24 - 6,435) | (23/24 - 5,736) | (23/24 - 1,967) | (23/24 - 607) | (23/24 - 701) |

**Amrywiaeth ein Dysgwyr**

Mae amrywiaeth o fyfyrwyr yn ymrestru yn y Coleg. Mae hyn yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gan ei gampysau, y masnachfreintiau Addysg Gymunedol pum sir a'i raglen Dysgu'n Seiliedig ar Waith. Yn 2024/25, roedd 12% (23/24 9.4%) o'n dysgwyr o grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig a datganodd 25.0% (23/24 - 18.5%) o ddysgwyr bod ganddynt anabledd a/neu anhawster dysgu. Gwelwyd gostyngiad bach iawn yn nifer y gwrywod sy'n astudio'n llawn amser yn y coleg, sef 47.4% (23/24 - 47.6%).

Mae'r Coleg yn gwasanaethu cyfran fawr o ddysgwyr a ddaw o ardaloedd o amddifadedd sylweddol, o gymharu â'r data mwyaf diweddar sydd ar gael ar gyfer y sector (56% o gymharu â chyfartaledd o 49% ar gyfer y sector). Serch hynny, mae hyn yn amrywio ar draws ein campysau, gyda chyfradd uwch o ddysgwyr o ardaloedd o amddifadedd uchel ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent (64.5%) o gymharu â niferoedd llawer is yn ein campws ym Mrynbuga.

Mae dysgwyr o bob degradd yn perfformio'n dda ym mhob un mesur ac mae hyn yn gyson ar draws y categorïau. Wrth inni gymharu canlyniadau i ddysgwyr o ddegraddau 1 gyda degraddau 5-10, mae'r gwahaniaeth mewn cyfradd lwyddo yn cyd-fynd â chyfartaledd y sector a chyda'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y Coleg yn cefnogi ei ddysgwyr yn dda ac mae ganddo strategaethau ar waith sy'n chwalu'n llwyddiannus effaith negyddol bosibl amddifadedd ar ddysgu.

**Canlyniadau Dysgwyr**

Mae'r Coleg yn falch iawn o gyflawniadau ei ddysgwyr wrth i weithgarwch ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Gallwn ddefnyddio'r meincnodau 2023/2024 a rannwyd gyda ni o gyhoeddiad Mesurau Cyson Medr. Cyhoeddir meincnodau 2024/25 ym mis Mai 2026.

Mae adborth drwy holiaduron, cynrychiolwyr dosbarthiadau, llywodraethwyr sy'n fyfyrwyr, a fforymau ad hoc drwy gydol y flwyddyn yn awgrymu bod dysgwyr yn fodlon iawn gyda'u profiad yn y coleg. Mae bron iawn pob dysgwr yn nodi ei fod yn teimlo'n ddiogel yn y coleg, sy'n braf ei weld yn sgil cyflwyno menter 'Parod, Parchus, Diogel' y coleg.

Mae recriwtio dysgwyr llawn amser yn parhau i gynyddu a llwyddodd y coleg i recriwtio 345 o fyfyrwyr llawn amser ychwanegol yn 2024/25, er parhaodd presenoldeb dysgwyr yn faes heriol ledled y sector addysg cyfan. Mae'r sector yn ffodus o gael cymorth ariannol wedi'i dargedu ar gyfer llesiant dysgwyr gan Medr.

Gwelodd eleni'r cam olaf tuag at lefelau cyfartal â chanlyniadau lefel A cyn y pandemig, gyda'r holl gamau lliniaru wedi'u codi. Astudiodd dros 5,000 o ddysgwyr llawn amser gymwysterau galwedigaethol ac eisteddodd 1,291 yn rhagor o ddysgwyr oddeutu 3,000 o arholiadau ar draws Safon Uwch a Safon UG. O'r rhain, cyflawnodd 61 pwnc Lefel A gyfradd lwyddo 100% ar draws ein tri champws, ac aeth llawer o ddysgwyr ymlaen i brifysgolion Russell Group neu Oxbridge.

Mae'r Coleg yn parhau i gyflwyno ei ddarpariaeth Cyfrifon Dysgu Personol Llywodraeth Cymru (PLA) llwyddiannus iawn, sy'n cefnogi oedolion i astudio cymwysterau a gymeradwyir gan y diwydiant, gan eu galluogi nhw i ddatblygu yn eu gyrfaoedd mewn meysydd cyflogaeth sydd o brif flaenoriaeth.

**Canlyniadau Safon Uwch**

Rydym wedi dychwelyd yn llawn at ddulliau asesu cyn y pandemig ac mae graddio gyda chanlyniadau cyffredinol ledled Cymru yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. 98.2% oedd canlyniadau Safon Uwch, gyda 18% o ddysgwyr yn ennill graddau A* - A. Mae canlyniadau Campws A fel a ganlyn: Mae'r graffeg isod yn cynnwys canlyniadau Cymru.

Cyfradd Lwyddo Gyffredinol Campws Crosskeys oedd 99.2%

Cyfradd Lwyddo Gyffredinol Parth Dysgu Blaenau Gwent oedd 98.5%

Cyfradd Lwyddo Gyffredinol Parth Dysgu Torfaen oedd 97.1%

Cyfradd Lwyddo Gyffredinol y Coleg oedd 98.2%

Cyfradd lwyddo'r Fagloriaeth Sgiliau Uwch (cyfwerth â Safon A) oedd 94%, sy'n wych iawn o ystyried y nifer uchel o gofrestriadau (dros 900).

**Canlyniadau TGAU**

Bu i 91% o'n dysgwyr a ddilynodd raglen TGAU Mathemateg ennill cymhwyster (A* i G) sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain, cyflawnodd 28% raddau A* i C, cynnydd o'r flwyddyn flaenorol (24/25: 19.9%), sy'n wych iawn o gymharu â'r proffil graddau yn genedlaethol.

Ar gyfer TGAU Saesneg, cyflawnodd 97% o'n dysgwyr y cymhwyster (A* i G) sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol. Enillodd 32% graddau A* i C, cynnydd o'r flwyddyn flaenorol (24/25: 18%).

**Canlyniadau Galwedigaethol**

Mae llwyddiant cyffredinol yn yr holl brif gymwysterau ar 22 Hydref 2025 yn 81%. Mae'r gyfradd cwblhau cwrs yn dda, sef 87%, er mae'r ffigwr hwn yn parhau'n is na'r blynyddoedd cyn y pandemig, lle'r oedd y gyfradd gadw'n oddeutu 89-90%. Mae hwn yn parhau'n faes sydd o flaenoriaeth.

**Prentisiaethau**

Nid yw'r gyfradd lwyddiant ar gyfer Prentisiaethau yn derfynol hyd fis Rhagfyr pob blwyddyn, ond mae'r Coleg yn rhagweld canlyniad o 70% ar gyfer 24/25. Mae hyn yn gyson gyda'r canlyniad terfynol ar gyfer y blynyddoedd diweddar ac, er ei fod yn is na'r targed uchelgeisiol y mae'r Coleg wedi'i osod iddo'i hun, mae'n debygol o fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae gwerth contractau'r coleg hefyd wedi parhau'n gyson, gyda'r sylw yn bennaf ar wella ansawdd y canlyniadau.

**Targedau Cyllido**

Mae recriwtio dysgwyr llawn amser ar draws y sector wedi adfer yn gadarn wrth inni barhau ar drywydd tuedd gynyddol wedi'r pandemig. Yn gyffredinol, cyflawnodd y Coleg 105% o'i darged llawn amser gan Lywodraeth Cymru, sy'n welliant sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cynyddodd recriwtio dysgwyr rhan amser yn sylweddol o gymharu â blynyddoedd y pandemig a chyflawnodd y coleg 99.2% o'i ddyraniad cyllido.

Bu 2024/25 yn flwyddyn lwyddiannus arall i PLA (Cyfrifon Dysgu Personol) gyda'r coleg yn cyflwyno gwerth mwy na £2.81m o weithgarwch.

Mae sefydlu Medr bellach ar waith yn llawn yn y sector ôl-16. Cynyddodd dyraniadau cyllid ar gyfer 2024/25 ar gyfer y rhan fwyaf o golegau.

**Datblygu Cwricwlwm**

Mae ein cwricwlwm yn parhau i ddatblygu i fodloni anghenion ein rhanddeiliaid a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'r cwricwlwm yn un eang, fel un o'r ychydig ddarparwyr ôl-16 sy'n cynnig cyrsiau ar draws pob Sector Pwnc (SSA). Mae cyfleoedd i wneud cynnydd yn rhan bwysig o'n gwaith cynllunio a datblygu gyda llwybrau o Lefel Mynediad hyd at Addysg Uwch, gyda phortffolio cynyddol ar Lefel 6.

Mae gweithio gyda chyflogwyr yn brif flaenoriaeth i ni, gan ddatblygu partneriaethau sy'n gymorth i lywio a gwella'r arlwy cwricwlwm, yn ogystal â'r ffordd y mae'n cael ei gyflwyno. Mae gwneud ein harlwy cwricwlwm yn unol â blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn thema

bwysig i bob cyfadran, gan ddefnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur a neilltuo ein tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr i gyflogwyr allweddol.

Mae datblygu sgiliau yn parhau'n flaenoriaeth uchel gyda darparu'r Fagloriaeth Uwch neu'r rhaglen Sgiliau i'r holl ddysgwyr llawn amser, ynghyd â llwybrau TGAU lle mae angen i ddysgwyr ddatblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd. Mae gan ddysgwyr gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac mae hyn yn rhan annatod o'r broses ddysgu ar gyfer pynciau sy'n flaenoriaeth megis Iechyd, Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyfryngau.

Mae buddsoddi mewn adnoddau yn parhau i'n galluogi ni i sicrhau bod yr arlwy cwricwlwm yn gyfredol ac yn berthnasol, gan ddatblygu dysgwyr sydd â'r sgiliau i fynd ymlaen i gyflogaeth. Er enghraifft, mae gennym fflyd fawr o gerbydau trydan yn yr adran peirianneg chwaraeon modur, labordy deunyddiau cyfansawdd sydd ar flaen y sector, hybiau Seiber a gorsafoedd efelychu gofal iechyd, ynghyd â chyfleusterau helaeth ar gyfer gofal anifeiliaid a cheffylau. Bydd 2025-26 yn nodi agoriad swyddogol ein cyfleuster peirianneg HiVE newydd ym Mlaenau Gwent. Dyma gydweithrediad o'r radd flaenaf gydag awdurdod lleol Blaenau Gwent a'r Llywodraeth i greu cyfleuster a fydd yn ennyn sylw dysgwyr mewn darpariaeth peirianneg uwch ac yn cyfrannu at greu gweithlu hynod fedrus.

**Cyflawniadau Dysgwyr**

Mae Coleg Gwent wedi cael blwyddyn wych arall yng nghystadlaethau WorldSkills y DU. Dangosodd ein dysgwyr medrus unwaith eto eu sgiliau rhagorol, gan ennill gwobrau Aur, Arian a Chanmoliaeth Uchel ar draws ystod o bynciau. Edrychwn ymlaen at gynnal y gystadleuaeth Genedlaethol yn ein campws dinas Casnewydd y flwyddyn nesaf.

Rhannon ni noson werth chweil gyda Sam Warburton wrth ddathlu ein Seremoni Gwobrau Dysgwyr blynyddol i anrhydeddu dysgwyr ysbrydoledig a'u hymroddiad a chyflawniadau drwy gydol y flwyddyn academaidd. Daeth myfyrwyr o bob campws ynghyd i gael gwobrau, rhannu straeon ysbrydoledig, a gwrando ar negeseuon arbennig gan staff ynghylch rhai o'r dysgwyr mwyaf disglair ac ymroddedig.
Mae ein rhaglen Interniaeth wedi'i Chefnogi ILS (Llwybr 4) yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae ein dysgwyr ILS yn cael budd o leoliadau gydag amrywiaeth o gyflogwyr yn y sectorau iechyd ar arlwyo, yn ogystal â phentwr o ddisgyblaethau eraill. Dyma sydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol gyda llawer o ddysgwyr yn sicrhau cyflogaeth o'i herwydd.

Yn ystod cam trawsnewidiol yn y llwybr at gyfleoedd cyfartal a chynhwysiant, ymunon ni ag Agored Cymru a'r Athro Paul Edwards i gynnig cyfle i fyfyrwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig astudio cwrs Mynediad ar gyfer Meddygaeth. Mae'r cwrs hwn y cyntaf o'i fath yng Nghymru, ac mae'n paratoi myfyrwyr ar gyfer Gradd Llwybr Meddygol. Yn 2024/25, cwblhaodd bob dysgwyr ar y rhaglen ei gwrs yn llwyddiannus.

Cafodd lawer o ddysgwyr fudd o brofiadau cyffrous ar raglenni astudio a chyfoethogi tramor:

- Yn ystod profiad dysgu unigryw, aeth ein dysgwyr Troseddeg a Chymdeithaseg i garchar Shepton Mallet i gymryd rhan mewn ymchwil go iawn. Galluogodd y profiad hwn i ddysgwyr ddatblygu sgiliau ymarferol ac arbenigol, gan eu paratoi i ddod yn arbenigwyr y dyfodol yn eu pwnc.

- Fel rhan o brofiad astudio rhyngwladol unigryw, ymwelodd ein dysgwyr Daearyddiaeth â Gwlad yr Iâ i ymchwilio ei ddaeareg a'i weithgarwch rhewlif. Cyfoethogodd yr ymchwiliad ymarferol hwn eu dealltwriaeth academaidd wrth ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth drwy waith maes uniongyrchol.

- Profodd ein myfyrwyr Ffotograffiaeth ysblander Cannes, gan dynnu lluniau o fodelau yn un o wyliau mwyaf clodfawr y byd.

## BUDDSODDI YN EIN STAFF

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i ymgorffori ein dull partneriaethau cymdeithasol wrth inni weithio drwy ail-drefnu ein Sefydliad ac wedi parhau i ddatblygu ein polisïau pobl sefydliadol.

### Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Rydym wedi parhau i feithrin diwylliant o ddysgu a datblygu, lle mae dysgu gydol oes yn cael ei hyrwyddo drwy ein Diwrnodau Dysgu Proffesiynol a datblygiad parhaus yr Hwb CPD, sy'n cynnig adnoddau a chyrsiau i staff eu defnyddio.

Mae ein Diwrnodau Dysgu Proffesiynol yn anelu at ddarparu hyfforddiant pwrpasol i Gyfadrannau ac Adrannau, ynghyd â diwrnodau hyfforddiant i'r Holl Staff sy'n canolbwyntio ar ddysgu corfforaethol a blaenoriaethau datblygu. Un o'r prif flaenoriaethau yw'r dysgwr digidol, gan gynnwys AI a hefyd datblygu diwylliant perfformiad uchel. Mae'r Diwrnodau Dysgu Proffesiynol yn anelu at gynnig cydweithio hollbwysig a myfyrion mewn adrannau i ymgorffori dysg.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi arian tuag y flaenoriaeth strategol o hyfforddiant TAR i staff sy'n darlithio, i gefnogi'r rhai sydd wedi pontio o'r diwydiant ac i sicrhau y cefnogir yr holl addysgu gan theori addysgeg.

### Tâl a Chydnabyddiaeth Staff

Mae'r Coleg yn arddangos gwerth i'w staff drwy adolygu tâl a dyfarniadau yn flynyddol i sicrhau y cynhelir agwedd gystadleuol ac y cydnabyddir cyfraniadau staff i lwyddiant y Coleg. Gwnaed y codiad cyflog yn ystod 2024/25 i gydnabod pwysau mewn costau byw a chafodd yr holl staff gynnydd o 5.5% ac mae pob gradd cyflog yn uwch na'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Mae'r Coleg hefyd yn ceisio sicrhau tegwch a thryloywder yn y broses dyrannu cyflog ac mae'r adroddiad blynyddol ar Fwlch Cyflog Rhywedd yn un elfen o hyn. Yn ystod 2024/25, adroddon ni bwlch cyflog rhywedd cyfartalog o 6.19% (2023/24: 7.01%) a modd bwlch cyflog rhywedd o 14.08% (2023/24: 14.66%).

### Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi parhau i lywio diwylliant o gynhwysiant a dathlu amrywiaeth ein dysgwyr, cydweithwyr, cymunedau a rhanddeiliaid. Mae ein cyflawniadau yn ystod y 12 mis diwethaf yn cynnwys:

- Cyhoeddi'r ymgyrch "Ymuno â'n Rhwydweithiau Cyswllt" a'r ymgyrch Cefnogi Iechyd Dynion i hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant, a llesiant meddyliol fel rhannau annatod o'n harferion gweithio a'n profiad i staff.

- Cyflawniad llwyddiannus ein dathliad amrywiaeth diwylliannol y coleg; gan ddenu dros 150 o staff a dysgwyr a chynnwys siaradwyr gwadd a gweithdai rhyngweithiol - gan arddangos cydweithio cadarn rhwng staff, dysgwyr, a sefydliadau partner.

- Ein rhwydweithiau cyswllt staff, gyda dros 200 o aelodau gweithredol, gan barhau i gyfrannu at newidiadau ystyrlon i bolisïau - yn cryfhau ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant drwy brofiadau bywyd, cynrychiolaeth, a llais cyffredin.

- Cafodd gwrth-hiliaeth ei gydnabod fel blaenoriaeth dysgu corfforaethol, gyda'r holl staff yn ymwneud â hyfforddiant Cydraddoldeb ar Sail Uwch a chreu dwy swydd hyrwyddo gwrth-hiliaeth ar draws y coleg.

- Targedu buddsoddiadau ariannol i blatfformau recriwtio amrywiol a hysbysfyrddau swyddi, gan sicrhau bod swyddi gwag yn cyrraedd cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ehangach, ac yn cael eu gweld yn fwy amlwg yn y cymunedau hyn.

**Iechyd a Llesiant**

Mae iechyd a lles gweithwyr hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y Coleg. Rydym wedi gweld gostyngiad yn ein cyfraddau absenoldeb cyffredinol ac wedi buddsoddi mewn cymorth rheoli i gael cysondeb.

Dyma rai o'r camau gweithredu yn ystod y 12 mis diwethaf:

- Adnoddau AD pwrpasol i gefnogi swyddi rheoli i gymhwyso'r gweithdrefnau Polisi Absenoldeb Salwch.
- Adolygu ein canllawiau mewnrwyd cymorth a chefnogaeth ar gyfer yr holl staff.
- Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r menopos i'r holl swyddi rheoli.
- Gwiriadau iechyd staff i'r holl weithwyr ar draws campysau.
- Defnydd cyson o'r ap llesiant - Headspace, a'i hyrwyddo. Mae hwn ar gael i'r holl weithwyr a'r holl ddysgwyr.
- Gwneud cymorth iechyd meddwl sy'n sensitif yn ddiwylliannol ar gael drwy'r amser i bobl o gymunedau Asiaidd, Du a lleiafrifoedd ethnig drwy'r gwasanaeth CCAW.
- Rhoi'r cyfle i gydweithwyr fod yn rhan o'n 7 rhwydwaith cyswllt staff.
- Defnydd cyson a hyrwyddo'r ap Jointly (mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru), gan gynnig cymorth iechyd meddwl hygyrch ac adnoddau ymarferol i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Darparu matiau llesiant ar draws ystafelloedd aml-ffydd campysau, cefnogi llesiant ysbrydol a meithrin sgyrsiau agored ynghylch ffydd ac iechyd meddwl.
- Rhoi'r cyfle i gydweithwyr gwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd meddwl, gan ddatblygu gallu mewnol i gefnogi llesiant meddyliol, a lleihau stigma.
- Cyflwyno hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Forgais i staff, gan roi cymorth i gydweithwyr wneud penderfyniadau doeth ynghylch cynllunio ariannol a bod yn berchen ar gartref.

## BUDDSODDI YN EIN HYSTÂD, TECHNOLEG AC ADNODDAU FFISEGOL

Parhaom ni i weithio'n galed i wella adnoddau i'n dysgwyr a'n staff, a thrwy gydol y flwyddyn fe ddefnyddion ni holl grantiau cyfalaf ychwanegol Llywodraeth yn effeithlon ac yn effeithiol, pan ddaethant ar gael. Buddsoddon ni gyfanswm o £3.5m mewn prosiectau amrywiol. Ceir crynodeb o hyn yn y siart isod.

## BUDDSODDIAD CYFALAF YN EIN HYSTÂD A CHYFLEUSTERAU- £1.8M

- Cwblhawyd gwerth £1.4m o waith cynnal a Chadw a oedd Wedi Cronni a ariannwyd gan grant, gan gynnwys teras to newydd ym Mloc X yn Crosskeys, toiledau yng Nghasnewydd, cael gwared ar asbestos yng Nghasnewydd, a gwaith ail-wynebu ym Mrynbuga.
- Agorodd y ganolfan HiVE gyffrous ei drysau i fyfyrwyr ym mis Medi 2025, yn dilyn gosod llawer o gyfarpar arbenigol a dodrefn.
- Cwblhawyd amrywiaeth o brosiectau cyfalaf, gan gynnwys labordy gwyddoniaeth newydd yn BGLZ, mynediad i Floc X a hwb myfyrwyr wedi'i adnewyddu yn Crosskeys, ystafell arholiadau wedi'i hadnewyddu yn Crosskeys, dosbarthiadau wedi'u gwella ym Mrynbuga, ac ystod o waith sy'n gysylltiedig â thir y coleg.
- Gwnaed gwaith ar du allan y Campws yn Crosskeys i ddargyfeirio gwasanaethau oddi ffwrdd o ôl-troed Cam 1 y Bloc Y newydd. Mae'r gwaith hwn yn rhan o weithredu uwch gynllun Crosskeys.
- Ar hyn o bryd, cynhelir gwaith ar brosiect Ardal Wybodaeth Casnewydd gan dîm dylunio penodedig sylweddol WEPco ac mae Cam 1 yn agos at gael ei gymeradwyo. Ariennir y prosiect gan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru (MIM), a fydd yn disodli campws presennol Casnewydd.

## BUDDSODDIAD CYFALAF MEWN TECHNOLEG - £1.7M

- Rhagor o fuddsoddi yn y Seilwaith VDI - ar gyfer defnydd yn yr ystafell ddosbarth ac i hwyluso gweithio'n hyblyg.
- Gwelliannau i brofiad y dysgwr yn y dosbarth drwy ddiweddaru 400 o liniaduron a 1,000 o gyfrifiaduron
- Buddsoddi parhaus mewn seilwaith TG craidd, megis gwella'r storfa gweinyddion ac uwchraddio'r wal dân.
- Gwelliannau i'n rhwydwaith WiFi drwy sicrhau 100 pwynt mynediad newydd.
- Gosod a rhoi 30 o fyrddau gwyn rhyngweithiol newydd ar draws y Coleg.

## BUDDSODDI MEWN CYFARPAR CWRICWLWM AC ADNODDAU ERAILL

Mae Rhaglen Disodli Asedau ar waith i olrhain dyddiadau disodli amcangyfrifedig ar gyfer cyfarpar cyfalaf sylweddol, ac yn cynnwys unrhyw ofynion cyfarpar y dyfodol a nodir yn y cynlluniau strategol. Mae hyn ein galluogi ni i ymateb yn gyflym pan ddaw cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael a gweithio o fewn terfynau amser heriol iawn.

## PARTNERIAETHAU

Mae cydweithio ac ymgysylltu rhagweithiol gyda rhanddeiliaid yn parhau'n flaenoriaeth strategol i'r Coleg, gan ein galluogi ni i sicrhau'r effaith gorau posibl i ddysgwyr, cyflogwyr, a'r gymuned ehangach.

Mae'r Addewid Partneriaethau â Chyflogwyr yn parhau i gryfhau ein cysylltiadau â'r diwydiant, yn gwella ymgysylltiad â chyflogwyr i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau rhanbarthol, yn gwella canlyniadau i ddysgwyr, ac yn cefnogi datblygiad economaidd. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd nifer y gweithwyr a ymrwymodd i'r Addewid i 20, a chroesawon ni Entrepreneur Preswyl newydd. Trwy'r fenter hon, mae cyflogwyr wedi cyfrannu at ystod eang o weithgareddau sy'n cyfoethogi'r profiad dysgu ac yn darparu profiadau gwerthfawr sy'n ymwneud â gwaith ar draws ein cyfleusterau.

Fel aelod o Gonsortiwm B-WBL, dan arweiniad Coleg Sir Benfro, cyflwynodd y Coleg rhaglen Brentisiaeth, yn bennaf yn y meysydd Adeiladu, Peirianneg ac Arlwyo. Mae'r bartneriaeth hon yn parhau i weithredu'n effeithiol, gan gynnig cefnogaeth gadarn i'n gwaith cyflawni a hwyluso contract Medr. Rhagwelir i ganlyniadau prentisiaethau 2024/25 fod yn unol â'r rhai a gyflawnwyd yn 2023/24.

Mae'r Coleg yn cynnal partneriaethau strategol gyda nifer o sefydliadau addysg uwch i gyflwyno rhaglenni lefel prifysgol ar draws portffolio cynyddol o feysydd pwnc. Yn 2024/25, ymrestrodd dros 600 o ddysgwyr ar gyrsiau addysg uwch. Rydym hefyd yn cydweithio gyda phrifysgolion, yn fwyaf nodedig, Prifysgol De Cymru, ar fentrau rhanbarthol er budd cymunedau lleol a chyflogwyr.

Mae'r Coleg yn gweithio ar draws pum ardal Awdurdod Lleol, ac yn ymgysylltu'n weithredol â phartneriaethau strategol a gweithredol, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, grwpiau hyfforddiant a sgiliau, a fforymau economaidd. Mae ein cysylltiadau ag Awdurdodau Lleol yn parhau i gryfhau, a chydnabyddir y Coleg fel rhandaliad allweddol yn yr agendâu sgiliau, twf, a ffyniant ar hyd a lled Gwent. Yn nodedig, rydym yn gweithio â phob un o'r pum Awdurdod Lleol drwy Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent, gan gyflwyno cyrsiau hygyrch sy'n helpu cymunedau i ennill sgiliau a chymwysterau newydd. Yn ogystal, rydym yn parhau i weithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd a Llywodraeth Cymru ar y gwaith o ddatblygu Ardal Wybodaeth Casnewydd, campws newydd yng nghanol y ddinas.

Ym Mlaenau Gwent, mae'r Coleg wedi cynnal cydweithrediadau agos gyda'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, y rhaglen Cymoedd Technoleg, Llywodraeth Cymru, a chyflogwyr lleol, gyda sylw penodol ar gefnogi'r sectorau peirianneg a gweithgynhyrchu. Cwblhawyd y cyfleuster HiVE newydd sbon yng Nglynebwy tuag at ddiwedd 2024/25 ac mae bellach yn barod i gyflwyno cwricwlwm llawn o 2025/26.

## PERFFORMIAD AMGYLCHEDDOL, IECHYD A DIOGELWCH


Yn ystod 2024 /25, parhaodd y Coleg i gyflawni ei amcan o wneud gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn i'w berfformiad amgylcheddol, iechyd a diogelwch. Wrth wneud hynny fe gyflawnodd nifer o nodau allweddol sy'n dangos ymrwymiad y Coleg i leihau risg, darparu man dysgu diogel a chyflawni carbon sero net erbyn 2050.

Yn ystod 2024/25 cynhaliodd y Coleg ei achrediad i ISO 45001 (Safon Rheoli Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol) ac ISO 14001 (Rheoli Amgylcheddol) yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r Coleg yn parhau i fod yr unig Goleg Addysg Bellach yng Nghymru gydag achrediad i'r ddwy safon. Mae'r safon rheoli o gymorth i roi sicrwydd ynghylch cydymffurfio â deddfwriaethau ac asesir y risgiau sy'n gysylltiedig â'r Coleg, adolygir y mesurau rheoli a chymerir camau priodol i leihau'r risgiau hynny.


*Prif Gyflawniadau*

- Roedd cyfanswm yr ôl-troed carbon i gwmpasau 1, 2 a 3 cyfwerth â 4,090,000 kg $CO_{2e}$. Mae hyn yn **ostyngiad o 724,316kg o $CO_{2e}$** o gymharu â 2023- 2024
- Roedd y cyfanswm y defnydd o ynni (nwy naturiol, trydan grid a gwresogi ardal) cyfwerth â 7,453,561 kWh, mae hyn yn **ostyngiad o 1,237,173 kWh** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- Cynhyrchodd y coleg 81,728 kWh o drydan drwy ei baneli ffotofoltäig solar ar y to; roedd hyn gyfwerth ag **arbed 22,168 kg o $CO_{2e}$**
- Parhaodd y coleg i ddangos gostyngiad yng nghyfanswm y damweiniau adroddadwy o dan RIDDOR **gyda 0 digwyddiad yn cael ei adrodd i'r HSE.**

*Cyfanswm Allyriadau Carbon (2024 /2025)*




*Cyfanswm allyriadau CO2e fel canran*




**BLAENORIAETHAU, ANSICRWYDD A RISGIAU'R DYFODOL**

Wrth i ni barhau i gyflawni ein gweledigaeth i newid bywydau drwy ddysgu, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar reoli'r risgiau a'r ansicrwydd a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein huchelgeisiau strategol. Mae ein Cofrestr Risgiau Corfforaethol, a adolygir yn rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd, yn amlinellu'r prif heriau a ddaw i'n rhan a'r camau rheoli sydd ar waith i'w lliniaru. Mae'r risgiau hyn yn cyd-fynd yn agos â'n blaenoriaethau strategol a chânt eu llywio gan ddatblygiadau allanol ac asesiadau mewnol.

Mae sicrhau amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol i ddysgwyr a staff yn faes risg allweddol o hyd. Gallai unrhyw fethiant sy'n gysylltiedig â hyn arwain at niwed, gwneud drwg i enw da, a recriwtio llai. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn diogelwch, cydraddoldeb, a datblygiad staff i gynnal ein gwerthoedd a'n disgwyliadau o ran ymddygiad: Bod yn Barod, Bod yn Barchus, Bod yn Ddiogel. Mae cydymffurfio ag Iechyd a Diogelwch, Sero Net a deddfwriaeth DDA hefyd yn parhau'n hollbwysig, gyda pharodrwydd isel i gymryd risg a strwythurau llywodraethu cadarn ar waith i sicrhau y cyflawnir cyfrifoldebau amgylcheddol a chyfreithiol.

Mae diogelwch seiber a llywodraethu gwybodaeth yn cyflwyno heriau cynyddol, gyda bygythiadau o dor diogelwch data a tharfu ar systemau'n cynyddu'n fwyfwy ar draws y sector. Rydym wedi ymateb gyda chamau rheoli cryfach, gan gynnwys partneriaethau allanol, hyfforddiant gorfodol, achrediad Hanfodion Seiber Uwch/ISO, i ddiogel uniondeb ac argaeledd ein systemau. Yn debyg, mae rhoi'r Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) ar waith yn gofyn am sylw parhaus i sicrhau cydymffurfiaeth ac i osgoi gweithdrefnau tribiwnlys addysgol.

Rydym yn gweithio'n agos gyda chyrff y sector a'r llywodraeth i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol yn effeithiol.

Mae cynaliadwyedd ariannol yn flaenoriaeth allweddol arall. Mae'r angen i sicrhau effeithlonrwydd wrth fuddsoddi yn ein dysgwyr, staff a seilwaith yn ganolog i'n huchelgeisiau strategol. Mae ein cynlluniau rhagweld a chynllunio busnes gweithredol yn cael eu mireinio'n gyson i sicrhau gwydnwch a hyblygrwydd. Ynghlwm â hyn y mae'r her o wella canlyniadau dysgwyr a chynnal targedau cyllido, mae'r ddau yn hanfodol i'n henw da a'n hiechyd ariannol. Rydym yn canolbwyntio ar ymyraethau wedi'u targedu, cynllunio cwricwlwm, a monitro perfformiad i gefnogi datblygiad a llwyddiant dysgwyr.

Mae datblygiadau strategol i ystadau, yn benodol Gwaith Ail-ddatblygu Crosskeys ac Ardal Wybodaeth Casnewydd, yn hanfodol i wella profiad y dysgwyr a chryfhau ymgysylltiad y gymuned. Gallai oediadau neu heriau cyllido effeithio ar nifer y dysgwyr, canlyniadau, ac ysbryd staff. Rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ddatblygu'r prosiectau hyn a gwireddu ein gweledigaeth i gael amgylchedd dysgu bywiog, cynhwysol yng Nghasnewydd.

Yn ogystal â'r risgiau hyn, mae ein Hunanasesiad diweddar wedi nodi nifer o feysydd allweddol i'w gwella a fydd yn sail i'n blaenoriaethau yn y dyfodol. Yn ein **Haddysgu a Dysgu**, byddwn yn cryfhau prosesau cynllunio a gwahaniaethu i fodloni anghenion dysgwyr unigol yn well, yn enwedig drwy integreiddio llythrennedd, rhifedd, a sgiliau digidol i raglenni lefel is a sicrhau bod addysgu ac asesu yn adlewyrchu proffiliau Anghenion Dysgu Ychwanegol dysgwyr a chynlluniau datblygu unigol. Rydym yn anelu at wella cysondeb mewn ansawdd addysgu ac arferion asesu, gyda phwyslais penodol ar raglenni Lefel 1 a 2 a'r Fagloriaeth Sgiliau Uwch. Byddwn hefyd yn datblygu'r gwaith o integreiddio'r Gymraeg a diwylliant Cymru, yn ogystal â chydraddoldeb, amrywiaeth ac addysg gwrth-hiliaeth ar draws pob maes cwricwlwm i feithrin parch ac ymwybyddiaeth o ddiwylliant.

Yn ein **Canllawiau Llesiant, Gofal a Chefnogaeth**, byddwn yn cryfhau systemau cefnogi dysgwyr i wella presenoldeb, datblygiad, a chanlyniadau, yn enwedig i'r dysgwyr mwyaf bregus. Mae hyn yn cynnwys cydlynu timau bugeiliol, academaidd, ac arbenigol yn well i sicrhau cefnogaeth amserol ac effeithiol. Byddwn hefyd yn gwella dyluniad a chyflwyniad Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), gan sicrhau bod dysgwyr yn ennill dealltwriaeth gref o ddiogelwch ar-lein, Atal, cam-drin rhwng cyfoedion, a dinasyddiaeth ddigidol drwy diwtorialau wedi'u strwythuro a chyfleoedd dysgu wedi'u hymgorffori.


Yn olaf, byddwn yn gwella gallu arwain ac atebolrwydd ar draws pob lefel, drwy adolygu cwmpas rheoli ac ymgorffori arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar ansawdd. Caiff arweinwyr eu cefnogi i ddefnyddio data perfformio a phrosesau rheoli yn effeithiol i annog gwelliannau mewn addysgu, dysgu, a chanlyniadau dysgwyr.

Byddwn hefyd yn moderneiddio a safoni prosesau a systemau digidol i ddileu dyblygiadau ac i wella effeithlonrwydd gweithredol, a hynny wrth feithrin gweithlu sy'n hyderus yn ddigidol drwy ddatblygu sgiliau sylfaenol a chymorth wedi'i deilwra. Caiff dull systematig ei gyflwyno i asesu effaith datblygiad proffesiynol arbenigol - yn enwedig mewn arferion sy'n ystyriol o drawma a llesiant - ar ddiddordeb, ymddygiad, a thwf personol dysgwyr.

Mewn amgylchedd allanol prysur a datblygol, rydym yn parhau wedi ymrwymo i addasu ein strategaethau i ymateb i gyfleoedd a risgiau a ddaw i'r amlwg. Bydd ein hagwedd y dysgwr yn gyntaf, wedi'i hategu gan uniondeb, parch, a dull sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, yn ein harwain drwy'r heriau sydd o'n blaen.

**CYSYLLTIADAU Â RHANDDEILIAID**

Fel y nodir uchod, mae'r Coleg wedi gweithio'n galed i sefydlu cysylltiadau cynhyrchiol gydag ystod eang o randdeiliaid:




Rydym yn cydnabod bod ymgysylltiad ystyrlon gyda'n rhanddeiliaid yn hanfodol i lwyddiant parhaus y Coleg. Drwy feithrin cysylltiadau cadarn, rydym yn ennill dealltwriaeth gryfach o anghenion rhanddeiliaid ac yn sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol ac amcanion sefydliadol. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sawl enghraifft o gydweithio effeithiol gyda phartneriaid allweddol, ac rydym yn ymfalchïo yn natblygiad y cysylltiadau effeithiol hyn sydd yn y pen draw yn gwella profiad y dysgwr.

**DATGANIAD O REOLEIDD-DRA, PRIODOLDEB A CHYDYMFFURFIAETH**

Fel swyddog cyfrifyddu yng Ngholeg Gwent, rwy'n cadarnhau bod y coleg wedi rhoi ystyriaeth briodol i ofynion contractau a chytundebau cyllid grant gyda Medr, ac mae wedi ystyried ei gyfrifoldeb i hysbysu Medr o afreoleidd-dra, amhriodoldeb a diffyg cydymffurfiaeth sylweddol gyda thelerau ac amodau'r cyllid.

Cadarnhaf ar ran y coleg, ar ôl gwneud yr ymholiadau priodol, a hyd eithaf fy ngwybodaeth, y gallaf adnabod unrhyw ddefnydd afreolaidd neu amhriodol perthnasol o arian gan y Coleg, neu achos perthnasol o ddiffyg cydymffurfio ag amodau a thelerau'r cyllid, dan gytundebau a chontractau cyllid grant y coleg gyda Medr, neu unrhyw ariannwr cyhoeddus arall.

Cadarnhaf nad oes unrhyw achos o anghysondeb, amhriodoldeb na diffyg cydymffurfio perthnasol wedi'i ganfod hyd yn hyn. Os caiff unrhyw achosion eu hadnabod ar ôl dyddiad y datganiad hwn, adroddir am y rhain i Medr.

**Llofnod:** __________________________

**Enw:** **Nicola Gamlin**

**Pennaeth/Prif Weithredwr**

**Dyddiad:-**

**DATGANIAD CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR**

Ar ran y Coleg, cadarnhaf fod y swyddog cyfrifyddu wedi trafod ei ddatganiad o Reoleidd-dra, Priodoldeb a Chydymffurfiaeth gyda'r Bwrdd ac rwy'n fodlon ei fod yn hollol gywir.

**Llofnod:** __________________________

**Enw:** **Susan Ball**

**Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad:-**

**DATGANIAD O REOLI MEWNOL A LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Darperir y datganiad hwn i gynorthwyo darllenydd y cyfrifon i ddeall sut mae egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU (i'r graddau y mae'n berthnasol i'r sector AB) wedi cael eu cymhwyso. Mae Coleg Gwent wedi ymrwymo i arferion gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol ac mae'n gweithredu gan roi ystyriaeth briodol i egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae'r Gorfforaeth wedi mabwysiadu'r Cod Llywodraethu Da i Golegau yng Nghymru, ac mae'n adolygu ei gydymffurfiaeth ag ef yn flynyddol. Darperir copi o'r Cod Llywodraethu Da i bob Aelod Corfforaethol pan gaiff ei benodi. Ym marn y Bwrdd, cydymffurfiodd Coleg Gwent â holl ddarpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU i'r graddau y maent yn berthnasol i'r sector addysg bellach a gofynion y Cod Llywodraethu Da drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2025.

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo ei God Ymddygiad a Gwerthoedd y Gorfforaeth ei hun ac yn flynyddol mae pob Aelod o'r Gorfforaeth yn datgan ei ymrwymiad i gadw at y safonau a nodir ynddo. Mae'r Cod Ymddygiad a Gwerthoedd yn cyfeirio ar ganllawiau rheoleiddiol a statudol perthnasol ac mae'n cynnwys y saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, natur agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Mae'r Brifysgol yn elusen eithriedig yn ôl Rhan 3 Deddf Elusennau 2011. Cadarnha'r Llywodraethwyr (sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr ar gyfer dibenion y Ddeddf Elusennau 2011) eu bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac mae'r datganiadau gofynnol sy'n ymwneud â hyn ar gael mewn rhan arall o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

**Y Bwrdd Corfforaethol**

Mae'r unigolion a wasanaethodd fel Llywodraethwyr ac Aelodau Allanol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 wedi'u rhestru yn y tabl ar dudalennau 24 a 25. Mae yna elfen annibynnol gref i Aelodaeth o'r Bwrdd ac mae'r Bwrdd o'r farn bod pob un o'i aelodau anweithredol yn annibynnol o'r rheolwyr ac yn rhydd rhag unrhyw fusnes neu unrhyw gysylltiad arall a allai ymyrryd yn sylweddol ar y ffordd mae'n beirniadu'n annibynnol.

Mae rhaniad clir mewn cyfrifoldeb sef bod rolau'r Cadeirydd a'r Pennaeth/Prif Weithredwr ar wahân ac mae'r holl Aelodau yn cydnabod ac yn deall y rhaniad rhwng eu rôl llywodraethu a chyfrifoldebau rheoli'r coleg. Cafodd Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r Gorfforaeth eu hadolygu'n llawn a'u diweddaru ym mis Gorffennaf 2024 a chafodd cyfrifoldebau ni ellir eu dirprwyo eu nodi'r glir, ynghyd â'r rhai a ddirprwyir yn benodol i'r Pennaeth/Prif Weithredwr. Lle bo'n briodol, mae'r Bwrdd wedi dirprwyo rhai penderfyniadau i'w bwyllgorau neu'r Tîm Arwain Corfforaethol. Cymeradwywyd Amserlen Ddirprwyo i sicrhau eglured a chysondeb ym mhob dirprwyad o'r fath.

Cyfrifoldeb y Bwrdd yw cymhwyso beirniadaeth annibynnol i faterion o natur addysgol, ariannol, cynaliadwyedd, strategol, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad. Darperir gwybodaeth reolaidd ac amserol i'r Bwrdd a'i bwyllgorau ynghylch perfformiad ariannol cyffredinol y Coleg, ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall fel Dangosyddion Perfformiad Allweddol, data ansawdd, gwariant cyfalaf (yn cynnwys prosiectau mawr) a materion adnoddau gweithredol (mae hyn yn cynnwys adnoddau dynol, amrywiaeth a chynhwysiant, diogelwch digidol/seiber a materion amgylcheddol, iechyd a diogelwch). Rhoddwyd agendâu ffurfiol a'r holl bapurau cyfarfod i Lywodraethwyr yn brydlon, cyn bob cyfarfod. Daeth y Bwrdd at ei gilydd bum gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25.

I gefnogi'r gwaith o roi ei gyfrifoldebau ar waith yn effeithiol, mae'r Bwrdd yn gweithredu gyda phum is-bwyllgor, ac mae gan bob un Gylch Gorchwyl clir a adolygir ac a gymeradwyir yn flynyddol gan y Bwrdd. Y pwyllgorau hyn yw:

Pwyllgor Archwilio
Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd
Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau
Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth
Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae pob pwyllgor yn rhoi adroddiad o'r materion a drafodwyd yn ei gyfarfodydd i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd i'r Bwrdd. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi argymhellion y pwyllgor ar benderfyniadau sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd llawn ac yn cynnwys cofnodion drafft a phapurau perthnasol er gwybodaeth neu i'w hadolygu. Hefyd amlygir materion y mae'r pwyllgor yn teimlo y dylid eu cyfeirio at drafodaeth gan y Bwrdd. Mae adroddiad atodol yn crynhoi'r holl drafodaethau eraill yng nghyfarfod y pwyllgor.

**Penodiadau**

Mae penodi Llywodraethwyr ac Aelodau Allanol newydd yn dibynnu ar gymeradwyaeth gan y Bwrdd, yn seiliedig ar gyngor ac argymhellion y Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu. Mae'r pwyllgor hwnnw yn gyfrifol am oruchwylio'r broses recriwtio a dethol a bydd yn cwrdd gyda phob un deiliad posibl y swydd cyn gwneud argymhelliad i'r Bwrdd. Mae monitro sgiliau a phroffil amrywiaeth sgiliau'r Bwrdd yn rheolaidd yn llywio'r broses recriwtio.

Ar wahân i'r Pennaeth/Prif Weithredwr a thri Myfyriwr sy'n Llywodraethwyr, penodir pob aelod am gyfnod o dair blynedd. Mae'n bosibl eu hail-benodi i wasanaethu hyd at uchafswm o dri chyfnod, neu naw mlynedd. Mae'r Bwrdd o'r farn bod uchafswm o naw mlynedd o wasanaeth yn briodol ac yn rhoi'r amser i Lywodraethwyr ddatblygu dealltwriaeth gref o'r coleg. Credir hefyd bod cyfnod o'r hyd hwn yn darparu arweinyddiaeth barhaus effeithiol a hynny wrth ganiatáu cyflwyniad bob hyn a hyn o safbwyntiau newydd a chefnogi agwedd annibynnol y Bwrdd.

Mae ail-benodi Aelodau yn fater i'r Bwrdd cyfan, ar argymhelliad y Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu. Nid yw ail-benodi yn digwydd yn awtomatig ar ddiwedd pob cyfnod 3 blynedd ac mae'n dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys adolygu cyfraniad, ymrwymiad a phresenoldeb y Llywodraethwr, ynghyd â blaenoriaethau cyfredol ac anghenion sgiliau'r Gorfforaeth gyfan ar yr adeg honno.

Penodir Llywodraethwr Myfyrwyr am gyfnod o flwyddyn. Yn ôl disgresiwn y Gorfforaeth, mae'n bosibl ymestyn hyn ac o ganlyniad i estyniad, neu ail-ethol, gall Llywodraethwyr sy'n Fyfyrwyr wasanaethu am uchafswm o dair blynedd.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am benodi Uwch Ddeiliaid Swydd. Penodwyd y Pennaeth/Prif Weithredwr cyfredol, Nicola Gamlin, ym mis Medi 2024. Cafodd ei phenodi drwy broses recriwtio drylwyr, agored a gafodd y broses ei chefnogi gan gynghorydd AD annibynnol.

**Amrywiaeth y Bwrdd**

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo'n llawn i arwain y Coleg i ddod yn gymuned gynhwysol ac amrywiol. Ei uchelgais yw gweld y coleg yn lleoliad cefnogol a pharchus lle mae croeso i bawb a lle nad oes rhaid i neb guddio pwy ydynt. Mae Datganiad Cynhwysiant ac Amrywiaeth y Bwrdd wedi cael ei gymeradwyo ac ar gael ar wefan y coleg. Mae'r Datganiad hwn yn cydnabod pwysigrwydd arwain drwy esiampl ac mae'n gwneud hynny drwy benodi Llywodraethwyr sy'n adlewyrchu natur amrywiol y cymunedau y mae'r Coleg yn eu gwasanaethu. Mae hefyd yn ymrwymo i sicrhau bod ystyriaethau o ran amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu cynnwys ym mhob un o drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd. Mae Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd yn nodi nifer o ymrwymiadau, ac fe adolygir y cynnydd i gyrraedd y rhain yn flynyddol. Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd i roi sicrwydd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac mae Llywodraethwr Cyswllt yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Coleg gyda'r Swyddog Llywodraethu.

Caiff prosesau recriwtio'r Bwrdd eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu'n goruchwylio'r broses recriwtio ac yn adolygu a chynghori'r Bwrdd ar ei broffiliau sgiliau ac amrywiaeth yn rheolaidd. Mae Llywodraethwyr yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar Amrywiaeth ac maent wedi ymuno â staff y coleg i gwblhau hyfforddiant gwrth-hiliaeth yn y gorffennol.

**Perfformiad y bwrdd**

Mae Rheolau Sefydlog ac Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r Gorfforaeth yn cael eu hadolygu'n llawn bob tair blynedd. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Gorffennaf 2024. Yn ogystal, caiff y Cylch Gorchwyl ar gyfer pob un o'r is-bwyllgorau'n ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y Coleg neu'r sector sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i wella ei lywodraethu'n barhaus. Mae Llywodraethwyr yn cwblhau hunan-asesiad blynyddol o berfformiad y Bwrdd a'r pwyllgor. Mae'r broses hon yn cynnwys y cyfle i Lywodraethwyr unigol gwrdd â'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd i drafod ei berfformiad a'i anghenion datblygu personol. Cafodd ddadansoddiad o ymatebion hunanasesu llywodraethu ei adolygu gan y Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu ym mis Rhagfyr 2024. Yn dilyn cwblhau cyfarfodydd un-i-un, cyflwynodd y Cadeirydd grynodeb o'r adborth a chamau allweddol i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r adborth yn sail i'r Adroddiad Hunanasesu Llywodraethu ac fe ymgorfforwyd Cynllun Gweithredu manwl i hwn er mwyn cefnogi datblygiad parhaus llywodraethu'r coleg.

Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiadau cyfnodol o strwythur llywodraethu'r coleg. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Ebrill 2023 ac ystyriodd yn fanwl i ba raddau mae'r Bwrdd yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol. Hefyd ystyriodd yr adolygiad wybodaeth feincnodi am brosesau a strwythurau Bwrdd mewn colegau eraill ac ar draws sectorau eraill. Rhagwelir y bydd yr adolygiad nesaf o'r strwythur llywodraethu yn cael ei gynnal ar ôl i Medr orffen llunio ei ganllawiau rheoleiddiol, a'u cyhoeddi.

Gan ddilyn cyngor gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod sesiynau cynefino a chyfleoedd datblygu priodol yn cael eu darparu i aelodau. Mae hyn yn seiliedig ar asesiad personol yr unigolyn o'i sgiliau, adolygiad o broffil sgiliau'r

Bwrdd cyfan a'r adborth a gasglwyd drwy'r holiadur hunanasesu blynyddol. Hefyd ystyrir anghenion hyfforddiant gan bob pwyllgor yn flynyddol.

Mae gan yr holl Lywodraethwyr gyfleoedd i gymryd rhan mewn sesiynau datblygu a hyfforddiant sy'n ymwneud â'u rôl a'u cyfrifoldebau. Maent yn cael defnydd o ystod o ddeunyddiau arweiniol electronig ac mae pob un yn cwblhau hyfforddiant ar-lein gorfodol ar Ddiogelu ac Atal, a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth. Ymgorfforir briff datblygu i'r agenda ar gyfer pob cyfarfod Bwrdd ac ymhlith y pynciau yn ystod 2024-25 oedd Medr/sector AB Cymru a chafodd y pwnc hwnnw'i gefnogi gan Brif Swyddog Gweithredu Medr. Rhai o'r pynciau briff eraill yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r sesiynau Strategaeth yn ystod y flwyddyn oedd ymgysylltu â rhanddeiliaid; prosiectau mawr mewn Ystadau a gweithgareddau i gyfrannu at adolygiad o Weledigaeth, Diben ac Uchelgeisiau Coleg Gwent (sydd yn mynd rhagddo o hyd). Yn ystod y flwyddyn, cymerodd Lywodraethwyr hefyd ran mewn sesiynau ar-lein a draddodwyd gan Colegau Cymru ar weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg (Cymraeg 2050) a Chymru Gwrth-hiliol, yn ogystal â sesiynau ar ddysgu'n seiliedig ar waith a rhan y Bwrdd mewn rheoli risgiau. I gefnogi eu datblygiad, anogir Llywodraethwyr i gymryd rhan mewn ymweliadau â champysau ac i alw draw i ddigwyddiadau'r coleg. Yn ystod y flwyddyn, mae Llywodraethwyr wedi ymwneud ag ystod eang o arddangosfeydd, perfformiadau, dyfarniadau a digwyddiadau cyflogwyr ar draws y coleg.

**Y Swyddog Llywodraethu**

Mae gan bob Llywodraethwr gysylltiad â'r Swyddog Llywodraethu. Mae'r swyddog hwn yn cynghori'r Bwrdd ar bolisïau a gweithdrefnau ac yn sicrhau bod y Bwrdd yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddiol a chyfreithiol perthnasol wrth iddo gynnal ei fusnes. Cyfrifoldeb y Bwrdd cyfan yw penodi, gwerthuso, pennu cyflog a diswyddo'r Swyddog Llywodraethu.

Mae'r Swyddog Llywodraethu yn meddu ar Dystysgrif Uwch Llywodraethu Corfforaethol y Chartered Governance Institute. Pob blwyddyn, mae'n cymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol ac yn 2024-25 roedd hyn yn cynnwys:

- Gwrth-lwgrwobrwyo
- Chwythu'r Chwiban
- GDPR (Hyfforddiant rheoli uwch)
- Ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch

Hefyd fe ymgysylltodd â sesiynau briffio Colegau Cymru a grybwyllir uchod ac aeth i Gynhadledd Flynyddol Colegau Cymru. Yn ychwanegol, mae'r Swyddog Llywodraethu yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd Rhwydwaith Llywodraethu AB Cymru. Mae'r cyfarfodydd hyn yn hwyluso'r gwaith o rannu arferion llywodraethu gorau ar draws y sector.

## Llywodraethwyr ac Aelodau Allanol a wasanaethodd yn y cyfnod hyd at lofnodi cyfrifon Coleg Gwent 2024-25

| Enw | Dyddiad Penodi/ Ail-benodi | Cyfnod (Blynyddoedd) | Statws | Pwyllgorau a wasanaethir | Presenol deb yn 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mark Langshaw MBE<br>Cadeirydd y Llywodraethwyr | 01.08.2016<br>01.08.2019 *Ail-benodwyd*<br>01.08.2022 *Ail-benodwyd*<br>31.07.2025 *Wedi ymddeol* | 3 | Annibynnol | C. F,G, R(Cadeirydd) | B - 80%<br>C 75%<br>F 75%<br>G 100%<br>R 100% |
| Nicola Gamlin | 09.09.2024 | AMH | Pennaeth/Prif Weithredwr | C, F, G | B 100%<br>C 100%<br>F 100%<br>G 86% |
| Susan Ball<br>Is-gadeirydd y Llywodraethwyr | 01.04.2018<br>01.04.2021 *Ail-benodwyd*<br>01.04.2024 Ail-benodwyd | 3 | Annibynnol | G(Cadeirydd), R<br>A *(cyfetholedig – 1 cyfarfod yn unig)* | B 100%<br>G 86%<br>R 100%<br>A 100% |
| Anthony Basnett | 01.01.2018<br>01.01.2020 *Ail-benodwyd*<br>01.01.2023 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | F (Cadeirydd)<br>R | A 80%<br>F 100%<br>R 100% |
| Moawia Bin-Sufyan | 01.01.2022<br>01.01.2025 *Ail-benodwyd* | 3 | Annibynnol | A, G | B 60%<br>A 80%<br>G 57% |
| James Bird | 01.01.2025 *Ail-benodwyd* | 3 | Annibynnol | A | B 100%<br>A 100% |
| Elizabeth Brimble | 01.06.2019<br>01.06.2022 *Ail-benodwyd*<br>01.06.2025 *Ail-benodwyd* | 3 | Annibynnol | C | B 60%<br>C 75% |
| Andrew Clark | 24.02.2021<br>23.02.2024 *Ail-benodwyd* | 3 | Annibynnol | F | B 100%<br>F 100% |
| Joshua Davies | 22.05.24<br>31.07.25 *gorffen* | 1 | Myfyriwr (AB) | C | B 60%<br>C 100% |
| Delyth Evans | 10.10.22 | 3 | Annibynnol | C | B - 80%<br>C 75% |
| Christopher Freegard OBE | 01.01.2020<br>01.01.2023 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | A (Cadeirydd), G, R | B 100%<br>A 100%<br>G 86%<br>R 100% |
| Bailjit Gill | 01.06.2022<br>01.06.2025 *Ail-benodwyd* | 3 | Annibynnol | F | B - 80%<br>F 75% |
| Andrew Johns | 01.01.2025 *Ail-benodwyd* | 3 | Annibynnol | A | B 100%<br>A 100% |
| John Phelps | 01.06.2019<br>01.06.2022 *Ail-benodwyd*<br>01.06.2025 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | A *(tan fis Mawrth 24)*<br>C *(tan fis Mawrth 25)* | B - 80%<br>A 100%<br>C 100% |
| Matthew Preece | 01.01.2020<br>01.01.2023 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | C | B - 80%<br>C 75% |
| Timothy Rathbone | 01.04.2024 | 3 | Annibynnol | F | B - 80%<br>F 100% |
| Maria Retter | 24.07.24<br>31.08.25 *daeth yn anghymwys yn dilyn dyrchafiad i'r Uwch Dîm Arwain* | 3 | Staff *(Addysgu)* | C | B - 80%<br>C 50% |
| Josephine Rogers | 01.08.2024<br>31.07.2025 *I Ben* | 1 | Myfyriwr (AB) | C | B 100%<br>C 75% |
| Elizabeth Swaffield | 01.06.2017<br>01.06.2020 *Ail-benodwyd.* | 3 | Annibynnol | C (Cadeirydd) | B - 80%<br>C 100% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 01.06.2023 *Ail-benodwyd.* | | | | |
| Huw Watkins | 10.12.2024 *Ail-benodwyd* | 1 | Myfyriwr (AU) | C | B 75%<br>C 67% |
| Gareth Watts | 10.10.2022. | 3 | Annibynnol | F | B 40%<br>F 50% |
| Joanne Weaver | *10.12.2024 Ail-benodwyd* | 3 | Staff (Cymorth Busnes) | F | B 100%<br>F 100% |
| * **B** = Bwrdd; **A** = Archwilio; **C** = Cwricwlwm ac Ansawdd; **F** = Cyllid ac Adnoddau **G** = Llywodraethu ac Aelodaeth; **R** = Pennu Cyflog | | | | | |

**Yr Aelodau Allanol a wasanaethodd ar bwyllgorau'r Gorfforaeth yn ystod y cyfnod oedd:**

| Enw | Dyddiad Penodi/ Ail-benodi | Cyfnod (Blynyddoedd) | Statws | Pwyllgorau a wasanaethwyd | Presenoldeb yn 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Farishna Chohan-Solanki | 01.04.2023 | 3 | Aelod Allanol Annibynnol | A | A 80% |
| Richard Brown | 23.10.2024 *Ail-benodwyd* | 3 | Aelod Allanol Annibynnol | A | A 100% |

**Penodiadau i'r Gorfforaeth ers 31 Gorffennaf 2025**

| Enw | Dyddiad Penodi/ Ail-benodi | Cyfnod (Blynyddoedd) | Statws |
|---|---|---|---|
| Boyd Paynter | 01.08.2025 *Penodwyd* | 1 | Myfyriwr (AB) |

## PWYLLGORAU'R GORFFORAETH

### Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd

Mae'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn cynghori'r Bwrdd ac yn goruchwylio perfformiad pob un mater sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan y coleg. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r cwricwlwm a rhoi cefnogaeth i ddysgwyr ar draws cyrsiau llawn amser, cyrsiau rhan amser, prentisiaethau, Addysg Uwch a darpariaeth yn y gymuned. Mae'r pwyllgor yn craffu data allweddol ar berfformiad, gan gynnwys Adroddiadau Hunanasesu blynyddol y Coleg ac mae'n monitro cynnydd prosesau gwella ansawdd. Mae hefyd yn chwilio am sicrwydd bod cydymffurfiaeth â deddfwriaethau allweddol, yn cynnwys Diogelu ac Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae'n cael diweddariadau rheolaidd ar Farchnata a recriwtio dysgwyr.

Yn ystod 2024-25, roedd 11 aelod yn y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd, gan gynnwys y Llywodraethwr Staff Addysgu a thri Myfyriwr sy'n Llywodraethwr. Bu aelodau perthnasol o'r

Timau Uwch Arwain a Chorfforaethol yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd. Daeth y pwyllgor at ei gilydd bedair gwaith yn ystod 2024-25.

**Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn cynghori'r Bwrdd ac yn monitro perfformiad ar faterion sy'n ymwneud â rheoli cyllid, adnoddau dynol, TGCh ac ystadau. Mae hefyd yn monitro cynnydd prosiectau cyfalaf mawr ac yn chwilio am sicrwydd bod cydymffurfiaeth â deddfwriaethau allweddol, gan gynnwys Iechyd a Diogelwch, Diogelu Data a Chydraddoldeb.

Mae gan y pwyllgor saith aelod, yn cynnwys y Llywodraethwr Staff Cymorth Busnes a Chadeirydd y Gorfforaeth. Nid oes unrhyw aelod o'r Pwyllgor Archwilio'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. Daeth y pwyllgor at ei gilydd bedair gwaith yn ystod 2024-25 ac roedd aelodau perthnasol o'r Gorfforaeth a Thimau Uwch Arwain yn bresennol.

**Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu**

Mae'r Pwyllgor Aelodaeth a Llywodraethu yn cynghori'r Bwrdd ar ei gyfansawdd a materion sy'n ymwneud ag aelodaeth y Gorfforaeth, yn cynnwys recriwtio, penodi ac ail-benodi aelodau. Mae hefyd yn monitro a chynghori'r Bwrdd ar bresenoldeb, datblygiad a chynllunio olyniaeth, yn ogystal â materion llywodraethu ehangach sy'n cynnwys gweithredu Medr.

Yn ystod 2024-25, daeth y pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth at ei gilydd chwe gwaith ac argymhellodd benodi dau Lywodraethwr annibynnol newydd, dau Fyfyriwr sy'n Llywodraethwr ac un Aelod Allanol o'r Pwyllgor Archwilio.

**Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol**

Mae'r gan y pwyllgor cynghori hwn bedwar Llywodraethwr annibynnol, gan gynnwys Cadeirydd y Gorfforaeth sydd hefyd yn cadeirio'r pwyllgor. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar gyflogau, telerau ac amodau a pherfformiad y pump Uwch Ddeiliad Swydd (y Pennaeth, y tri Dirprwy Bennaeth a'r Swyddog Llywodraethu). Ceir gwybodaeth berthnasol am dâl cydnabyddiaeth yr Uwch Ddeiliaid Swyddi yn Nodyn 7 y datganiadau ariannol.

Wrth ystyried tâl Deiliaid Swyddi Uwch, mae'r pwyllgor yn ystyried perfformiad, data meincnodi perthnasol ac unrhyw ddyfarniadau tâl diweddar a roddwyd i staff yn y sector. Daeth y pwyllgor at ei gilydd ddwywaith yn ystod 2024-25. Yn dilyn yr ail gyfarfod, gwnaed argymhelliad i roi dyfarniad tâl i'r holl Uwch Ddeiliaid Swydd yn unol â hynny a roddwyd i staff (h.y. 5.5% wedi dyddio'n ôl i 01/08/24). Cafodd yr argymhelliad hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2025.

**Pwyllgor Archwilio**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys pedwar Llywodraethwr annibynnol ac o leiaf dau Aelod Allanol. Mae gan nifer o aelodau'r pwyllgor brofiad uniongyrchol ac arbenigedd mewn cyfrifyddu, archwilio, rheolaeth fewnol neu reoli risg. Nid yw aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys y Pennaeth/Prif Weithredwr a Chadeirydd y Llywodraethwyr. Yn ogystal, ni all Llywodraethwr Staff a Myfyrwyr sy'n Llywodraethwyr, nac aelodau o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau wasanaethu ar y pwyllgor. Mae'r Pennaeth/Prif Weithredwr a'r Dirprwy Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn mynd i holl gyfarfodydd y pwyllgor drwy wahoddiad, yn ogystal â'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae'r pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r Cylch Gorchwyl hwn yn adlewyrchu

gofynion y Memorandwm o Ddealltwriaeth Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Cholegau AB a'r arferion gorau sydd wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd o leiaf unwaith bob tymor a daeth at ei gilydd bum gwaith yn 2024-25. Y presenoldeb cyffredinol ar gyfer y flwyddyn oedd 90%:

| Aelod | 26.11.24 | 03.03.25 | 17.03.25 | 06.05.25 | 01.07.25 | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mr C Freegard OBE (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 5 o 5 | |
| Mr M Bin-Sufyan | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | 4 o 5 | |
| Mr J Bird | | ✓ | ✓ | | ✓ | 3 o 4 | Penodwyd ym mis Ionawr 2025 |
| Mr A Johns | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 4 o 4 | Penodwyd ym mis Ionawr 2025 |
| Mrs S Ball | ✓ | | | | | 1 o 1 | Secondiad am 1 cyfarfod yn unig wrth ddisgwyl cael ei recriwtio |
| Mr J Phelps | ✓ | | | | | 1 o 1 | Symudodd i'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd ym mis Ionawr 2025 |
| Mr R Brown | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 5 o 5 | |
| Mrs F Chohan-Solanki | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | 4 o 5 | |
| Presenoldeb mwyaf posibl | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 30 | |
| Presenoldeb mewn gwirionedd | 6 | 5 | 6 | 5 | 5 | 27 | |
| % Presenoldeb | 100% | 83% | 100% | 83% | 83% | **90%** | |

Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn rhoi fforwm ar gyfer adrodd gan archwilwyr mewnol ac allanol y Coleg. Mae gan y ddau fath o archwilwyr gysylltiad uniongyrchol ag aelodau’r pwyllgor ac mae trafodaethau preifat (ac eithrio’r Swyddog Llywodraethu a thîm rheoli’r Coleg) yn digwydd rhwng yr archwilwyr a’r pwyllgor o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae archwilwyr mewnol y Coleg yn monitro systemau rheoli mewnol, camau rheoli risgiau a phrosesau llywodraethu yn unol â chynllun y cytunwyd arno ac maent yn adrodd eu canfyddiadau i’r Pwyllgor Archwilio. Cyfrifoldeb y rheolwyr yw rhoi argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt ar waith ac mae archwilwyr mewnol y Coleg yn cynnal adolygiadau cadw golwg cyfnodol i sicrhau y rhoddwyd yr holl argymhellion ar waith. Ym mhob cyfarfod, mae’r Pwyllgor Archwilio yn cael diweddariad ar gynnydd y broses o roi argymhellion archwilio ar waith.

Mae’r Pwyllgor Archwilio yn cynghori'r Gorfforaeth ar benodi archwilwyr mewnol ac allanol a'u cydnabyddiaeth ariannol am waith archwilio a gwaith nad yw’n ymwneud ag archwilio. Dyfarnir y ddau gontract drwy broses dendro gystadleuol briodol. Ar gyfer archwiliad mewnol, penodwyd TIAA ar gontract tair blynedd yn 2022. Blwyddyn academaidd 2024-25 oedd blwyddyn olaf y contract hwnnw. Cwblhawyd proses dendro newydd ar gyfer contractau archwilwyr mewnol ac allanol yn gynnar yn 2025. Yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Archwilio, cymeradwyodd y Bwrdd benodiad RSM LLP fel archwilwyr mewnol newydd coleg o fis Medi 2025 ar gontract tair blynedd a Cooper Parry Group Ltd. fel archwilwyr allanol, hefyd ar gontract tair blynedd.

Mae gan y Coleg fframwaith cadarn i reoli risgiau. Mae’r Bwrdd yn cymryd rhan mewn trafodaethau am o leiaf y risgiau allweddol, yn flynyddol, cyn cymeradwyo’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Cynhaliwyd trafodaethau manwl am y Gofrestr Risgiau yng nghyfarfodydd y bwrdd ym mis Gorffennaf a mis Hydref 2024. Wedi hynny, ym mhob un o’i gyfarfodydd fe adolygodd y Pwyllgor Archwilio ddiweddariad ar y meysydd risg allweddol a nodwyd. Mae'r Bwrdd hefyd yn rhan o drafodaethau rheolaidd ynghylch risgiau allweddol a newydd ac mae'n cadw'n gyfredol gyda datblygiadau yn y coleg a'r sector drwy adroddiadau rheolaidd gan y Pennaeth/Prif Weithredwr. Mae adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd gan y rheolwyr yn

cynnwys dadansoddiad o'r lefelau risg a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig gyda'r mater sydd i'w drafod.

## Rheoli Mewnol

### Cwmpas cyfrifoldeb

Y Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am system rheoli fewnol y Coleg ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod y dyluniwyd system o'r fath i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni nodau busnes, a gall dim ond rhoi sicrwydd rhesymol na fydd cam-ddatgan neu golli sylweddol yn digwydd, yn hytrach na sicrwydd absoliwt.

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dydd i ddydd am gynnal system rheoli mewnol gadarn i'r Pennaeth/Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pennaeth/Prif Weithredwr yn sicrhau bod y system reoli'n parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni polisi, amcanion a nodau'r Coleg, a hynny wrth ddiogelu asedau ac arian cyhoeddus y mae ganddo gyfrifoldeb personol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd iddo yn y Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Choleg Gwent. Mae'r Pennaeth/Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am sicrhau adrodd prydlon i'r Gorfforaeth ynghylch unrhyw wendidau neu fethiannau sylweddol yn y broses rheoli mewnol.

### Diben y system rheoli mewnol

Mae'r system rheoli mewnol wedi ei dylunio i reoli risgiau i lefel resymol, yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, amcanion a nodau. Gall felly dim ond sicrhau effeithlonrwydd rhesymol, ac nid absoliwt. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Coleg, ac i werthuso pa mor debygol yw hi y bydd y risgiau hynny'n digwyddi, yr effaith pe bai nhw'n digwydd, a'u rheoli'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae'r system rheoli mewnol wedi bod ar waith yng Ngholeg Gwent ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2025 a hyd at y dyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blynyddol.

### Gallu i ymdrin â risgiau

Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r prif risgiau y mae'r Coleg yn agored iddynt, yn ogystal â'r camau rheoli gweithredol, ariannol a chydymffurfio a roddwyd ar waith i liniaru'r risgiau hynny. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2025, mae'r Bwrdd o'r farn y bu proses briodol, ffurfiol a pharhaus i nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Coleg.

### Y fframwaith risg a rheoli

Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol yn cynnwys rhannu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n cynnwys:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol y mae'r corff llywodraethu yn ei hadolygu a chytuno arni

- Adolygiadau rheolaidd o adroddiadau ariannol blynyddol a chyfnodol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos perfformiad ariannol y Coleg a'i rannau o gymharu â rhagolygon

- Gosod Dangosyddion Perfformiad Allweddol i fesur perfformiad ariannol pherfformiadau eraill

- Mae Grŵp Monitro yn cwrdd yn rheolaidd i fonitro perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol a chytuno ar gamau unioni yn ôl yr angen

- Canllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf a ddiffiniwyd yn glir

- Mabwysiadu disgyblaethau rheoli prosiectau ffurfiol (pan fo'n briodol)

- Darparu adroddiadau ar gynnydd mewn monitro risgiau, yn seiliedig ar y gofrestr risgiau, i'r Pwyllgor Archwilio ym mhob un o'i gyfarfodydd.

Darparwyd y gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r Coleg gan TIAA Ltd. Bodlonodd hyn ofynion Medr yn ystod 2024-25. Mae gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r risgiau y mae'r sefydliad yn agored iddynt, ac mae'r cynllun archwilio mewnol blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Caiff y dadansoddiad o'r risgiau a'r cynlluniau archwilio mewnol eu cefnogi gan y Bwrdd yn ôl argymhelliad y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Archwilydd Mewnol yn rhoi Adroddiad Blynyddol o'i weithgarwch yn y Coleg i'r Bwrdd. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys barn annibynnol yr Archwilydd Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli risgiau, camau rheoli a phrosesau llywodraethu'r Coleg.

### Adolygiad o effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gan y Pennaeth/Prif Weithredwr gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Mae ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol yn cael ei lywio gan:

- waith yr archwilwyr mewnol;

- gwaith aelodau eraill o Dîm Arwain Corfforaethol y Coleg sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol; a

- sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol y Coleg ac archwilwyr Llywodraeth Cymru yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill.

Mae'r Pennaeth/Prif Weithredwr wedi cael gwybod am oblygiadau canlyniad eu hadolygiad effeithiolrwydd o'r system rheoli mewnol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r pwyllgor yn goruchwylio gwaith yr archwilydd mewnol yn ogystal â chynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliannau parhaus yn y systemau sydd ar waith.

Mae'r Tîm Arwain Corfforaethol yn cael adroddiadau sy'n nodi dangosyddion perfformiad a risgiau allweddol ac yn ystyried materion rheoli posibl a dynnir eu sylw atynt drwy ddulliau rhybuddio cynnar, sydd wedi'u hymgorffori ym mhob adran a'u hatgyfnerthu gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae'r Tîm Arwain Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cael

adroddiadau rheolaidd gan archwiliadau mewnol, sy'n cynnwys argymhellion am welliannau. Mae rôl y Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn wedi'i chyfyngu i adolygiad lefel uchel o'r trefniadau ar gyfer rheoli mewnol ac unrhyw ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr archwiliwr mewnol. Mae pob agenda'r Pwyllgor Archwilio'n cynnwys eitem i ystyried ei risg a'i rheolaeth. Mae hyn yn cynnwys diweddariad cynnydd ar weithredu unrhyw argymhellion a wnaed gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae'r pwyslais ar gaffael y lefel berthnasol o sicrwydd ac nid adrodd drwy eithriad yn unig. Cynhaliodd y Bwrdd yr asesiad blynyddol ar gyfer 2024-25 drwy ystyried dogfennau gan y Tîm Arwain Corfforaethol, archwiliadau mewnol ac allanol, y Pwyllgor Archwilio a'r Swyddog Llywodraethu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi darparu Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd sy'n rhoi manylion am ei waith yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi bod yn sail i'w ddatganiad sicrwydd i'r Gorfforaeth ynghylch effeithiolrwydd strwythurau Rheoli Risg, Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Mewnol y Coleg. Yn ei adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd ar 9 Rhagfyr 2025, cadarnhaodd y Pwyllgor Archwilio, yn seiliedig ar ei waith ei hun a gwaith y gwasanaethau archwilio, ei fod yn fodlon bod prosesau llywodraethu corfforaethol, rheoli a rheoli risg Coleg Gwent, ynghyd â'i systemau mewnol, camau rheoli a gwiriadau, yn effeithiol ac yn ddigonol i alluogi'r coleg i gyflawni ei nodau, cyhyd ag y gellir ei bennu'n rhesymol. Nododd y pwyllgor na all y fath sicrwydd byth fod yn absoliwt.

**Busnes gweithredol**

Ar ôl gwneud ymholiadau priodol, mae'r Gorfforaeth yn ystyried bod gan y Coleg adnoddau digonol i barhau i fodoli'n weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Oherwydd hyn, mae'n parhau i fabwysiadu'r statws cwmni gweithredol wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol.

| | |
|---|---|
| **Llofnod:-** ______________________ | **Llofnod:-** ______________________ |
| **Susan Ball**<br>**Cadeirydd y Llywodraethwyr** | **Nicola Gamlin**<br>**Pennaeth/Prif Weithredwr** |
| **Dyddiad:-** | **Dyddiad:-** |

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AELODAU’R GORFFORAETH

Mae'n ofynnol i aelodau'r Gorfforaeth gyflwyno datganiadau ariannol wedi’u harchwilio ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Dan delerau ac amodau’r Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru/Medr a Chorfforaeth y Coleg, mae’n ofynnol i’r Gorfforaeth, drwy ei Swyddog Cyfrifyddu, baratoi datganiadau ariannol ac adroddiad ariannol a gweithredol i bob blwyddyn ariannol yn unol â’r Datganiad o Ymarfer Argymelledig - Cyfrifyddu ar Gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch, y Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gyfer Colegau Addysg Bellach yng Nghymru ac Egwyddorion Cyfrifyddu’r Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU. Dylai roi golwg wir a deg o faterion y Coleg a’i incwm dros ben/diffyg incwm o gymharu â gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Gorfforaeth:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson
- ffurfio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a darbodus
- nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol y DU wedi'u dilyn, yn amodol ar ddatgelu unrhyw wyriadau sylweddol a’u hegluro yn y datganiadau ariannol
- asesu a yw'r coleg yn fusnes gweithredol, gan nodi'r rhagdybiaethau ategol, cymwysterau neu gamau lliniaru allweddol, fel sy'n briodol (y mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â datgeliadau eraill yn y cyfrifon ac yn adroddiad yr archwilydd)
- paratoi datganiadau ariannol ar y statws cwmni gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd y Coleg yn parhau i weithredu

Mae'n ofynnol hefyd i'r Gorfforaeth baratoi Adroddiad Aelodau yn unol â pharagraffau 3.23 i 3.27 o SORP ar gyfer AB ac AU, sy'n disgrifio'r hyn mae'n ceisio ei wneud a sut mae'n mynd ati i wneud hynny, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch statws cyfreithiol a gweinyddol y Coleg.

Y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am gadw cyfrifon priodol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw bryd, sefyllfa ariannol y Coleg ac sy'n ei galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r deddfwriaethau perthnasol, gan gynnwys Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Elusennau 2011, a safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae'n gyfrifol am gymryd camau sy'n rhesymol iddo’u cymryd i ddiogelu ei asedau ac i atal ac adnabod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am gynnal ei gwefannau a’u huniondeb; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn, ac yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi eu gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan am y tro cyntaf. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy’n llywodraethu’r gwaith o baratoi a rhannu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau’r Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau y cymhwysir gwariant incwm ar gyfer y dibenion a fwriedir gan Medr a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am sicrhau bod cyllid gan Medr, ac unrhyw gyllid cyhoeddus arall, dim ond yn cael ei ddefnyddio'n unol â'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ac unrhyw amodau eraill y gellir eu cyflwyno o bryd i'w gilydd gan Medr neu unrhyw ariannwr cyhoeddus arall. Ar ran y corff llywodraethu, cadeirydd bwrdd y llywodraethwyr sy’n gyfrifol am drafod datganiad y swyddog cyfrifyddu o reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth gyda’r swyddog cyfrifyddu.

Rhaid i aelodau sicrhau bod rheolaeth ariannol briodol a rheoli priodol ar waith i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd eraill a sicrhau y cânt eu defnyddio'n briodol. Yn ogystal, mae Aelodau'r Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant ac adnoddau'r Coleg yn cael eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, fel nad yw'r buddion a ddylid deillio o ganlyniad i ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus gan Medr a chyrff cyhoeddus eraill, dan risg.

Cymeradwywyd y gorchymyn gan aelodau'r Gorfforaeth ar 10 Rhagfyr 2024 a chafodd ei lofnodi ar ei rhan gan:

**Susan Ball**
**Cadeirydd y Llywodraethwyr**
**Dyddiad:-**

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gorff Llywodraethu Coleg Gwent**
**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Coleg Gwent (y 'Coleg') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2025. Mae'r datganiadau'n cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad o Newidiadau mewn Arian Wrth Gefn, Datganiad o Lif Arian a nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), gan gynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion y Coleg fel yr oeddent ar 31 Gorffennaf 2025, ac o'i adnoddau cynhyrchu incwm a defnydd o adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig.

**Barn ar faterion eraill sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru**

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion canlynol dan God Ymarfer Archwilio Addysg Bellach 2015 (a ddaeth i rym 1 Awst 2014) ("y Cod Ymarfer Archwilio") a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Trosglwyddwyd y gwaith o reoleiddio sector Addysg Uwch Cymru o Lywodraeth Cymru i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ar 1 Awst 2024. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Cod Rheoli Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dal mewn grym ar ddyddiad ein hadroddiad. O ystyried y trosglwyddiad hwn, dylid ystyried unrhyw gyfeiriad at Medr yn ein hadroddiad fel cyfeiriad at Lywodraeth Cymru hefyd.

Yn ein barn, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae arian a wariwyd o grantiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai a drosglwyddwyd gan Medr, a chyllid arall o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y Coleg ar gyfer dibenion penodol, wedi eu defnyddio'n briodol i'r dibenion hynny ac, os yn briodol, wedi'u rheoli yn unol â phob deddfwriaeth berthnasol;
- mae cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a Medr (a chyrff eraill a chronfeydd cyfyngedig eraill lle bo'n briodol) wedi cael ei ddefnyddio'n unol â'r Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau addysg bellach; ac
- mae'r datganiadau ariannol yn bodloni gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon 2024/25 Medr.

**Sail y farn**

Cynhalion ni ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwiliwr yn yr adran o'n hadroddiad ar gyfer archwiliad o'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol o'r Coleg yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

**Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad fod defnydd y Llywodraethwyr o sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Coleg i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Llywodraethwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth ychwanegol**

Y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n Hadroddiad o'r Archwilwyr Annibynnol.

Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid ydym ni'n mynegi unrhyw sicrwydd ar hynny, ac eithrio pan nodir yn hollol glir yn ein hadroddiad.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn modd perthnasol â'r datganiadau ariannol neu fod ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi'i cham-ddatgan mewn modd perthnasol. Os byddwn yn adnabod anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol amlwg, mae gofyn inni benderfynu a yw hyn yn creu camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hun. Os, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi ei wneud, ein bod yn dod i'r casgliad fod cam-ddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn inni adrodd ar y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

**Materion y mae gofyn i ni adrodd arnynt drwy eithriad**

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth am y Coleg a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym ni wedi canfod camddatganiadau perthnasol yn Adroddiad y Llywodraethwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'r Cod Ymarfer Archwiliad o Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru drwy gyfeirio at y Cyfarwyddyd Cyfrifon 2024/25 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu ni roddwyd datganiadau digonol i'n harchwiliad gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gennym ni; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r datganiadau; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r eglurhad rydym eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

**Cyfrifoldebau Aelodau o Gorff Llywodraethu'r Coleg**

Fel y rhoddir rhagor o eglurhad yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Corff Llywodraethu ar dudalen 31, mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a deg, ac am gymaint o reoli mewnol ag y mae'r Corff Llywodraethu'n ei bennu'n angenrheidiol i alluogi'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag cam-ddatganiadau sylweddol, oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am asesu gallu'r Coleg i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n briodol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Corff Llywodraethu yn naill ai bwriadu datod y Coleg neu ddod â'i weithrediadau i ben, neu nad oes dewis realistig arall oni bai am wneud hynny.

**Ein cyfrifoldebau ar gyfer archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Ein nodau yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol, fel cyfanwaith, yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd lefel uchel, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn ôl Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob tro pan fydd yn bodoli. Gall cam-ddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

*Y graddau y mae'r archwiliad yn gallu canfod anghysondebau, gan gynnwys twyll*
Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gam-ddatganiadau materol o ran afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Mae'r graddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod anghysondebau, gan gynnwys twyll, i weld isod:

Cawson ni ddealltwriaeth o'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i'r Coleg ei hun a'r sector y mae'n gweithredu ynddo. Nodon ni meysydd o'r gyfraith a rheoliadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol gan ein profiad o'r sector a thrwy drafodaeth â'r Corff Llywodraethu a'r rheolwyr. Y rhai mwyaf arwyddocaol a nodwyd oedd Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, fel un o Golegau Addysg Bellach Cyffredinol Cymru; a'r Datganiad o Arfer Argymelledig: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019 (AB/AU SORP 2019); a Chyfarwyddyd Cyfrifon y Coleg
2024 i 2025.

Mae safonau archwilio yn cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i ymchwilio i'r Gorfforaeth a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes rhai.

Ystyrion ni graddau'r cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hynny fel rhan o'n gweithdrefnau ar y datganiadau ariannol perthnasol.

Er nad oedd ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cyfyngu i'r pethau canlynol, roeddent yn cynnwys:

- gwneud ymholiadau i'r rheolwyr a'r Corff Llywodraethwyr ynglŷn â lle maent yn ystyried sy'n agored i weithgarwch twyll ac oes ganddynt unrhyw wybodaeth am dwyll, neu'n amau twyll;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, adolygu adroddiadau archwiliadau mewnol ac adolygu gohebiaeth â CThEF a rheoleiddwyr perthnasol i nodi unrhyw dwyll gwirioneddol neu bosibl neu unrhyw wendidau posibl yn y system rheoli mewnol a allai arwain at fod yn agored i dwyll;
- cael dealltwriaeth o'r camau rheoli mewnol a luniwyd i liniaru'r risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau;
- asesu effeithiolrwydd dyluniad y camau rheoli sydd ar waith i atal a chanfod twyll;
- asesu'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru gan gynnwys nodi a phrofi cofnodion cyfnodolion; a

- herio'r rhagdybiaethau a'r dyfarniadau a wneir gan y rheolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol.

Er na nododd ein harchwiliad unrhyw faterion perthnasol a oedd yn ymwneud â chanfod afreoleidd-dra yn cynnwys twyll, ac er bod yr archwiliad wedi'i gynllunio a'i gynnal yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU), mae risg na all ellir ei hosgoi yn parhau sef na all cam-ddatganiadau perthnasol gael eu canfod oherwydd cyfyngiadau cynhenid yr archwiliad, ac oherwydd eu natur, mae'n debygol y gall unrhyw achosion o dwyll neu anghysondeb gynnwys cydgynllwynio, ffugio, camliwio bwriadol, neu ddiystyru camau rheoli mewnol. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch ein cyfrifoldebau ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n Hadroddiad o'r Archwilwyr Annibynnol.

**Defnyddio ein hadroddiad**

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Aelodau'r Corff Llywodraethu'n unig, fel corff, ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'n llythyr ymrwymo sydd â'r dyddiad 27 Mehefin 2025. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i Aelodau'r Corff Llywodraethu, y materion hynny y mae'n rhaid inni eu datgan mewn adroddiad archwiliwr ac nid at unrhyw ddiben arall, o dan ein llythyr ymrwymo sydd â'r dyddiad 27 Mehefin 2025. Cyn belled ag y caniateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb nac yn rhoi cyfrifoldeb i unrhyw un ar wahân i Aelodau'r Corff Llywodraethu, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am ein barn.

**Cooper Parry Group Limited**
Archwiliwr Statudol
Cubo Birmingham
Swyddfa 401, 4ydd Llawr
Dau Sgwâr Chamberlain
Birmingham
B3 3AX

## Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2025

| INCWM | Nodyn | 2025<br>£'000 | 2024<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU | 2 | 75,964 | 71,256 |
| Ffïoedd dysgu a chontractau addysg | 3 | 3,665 | 3,498 |
| Grantiau a chontractau eraill | 4 | - | 305 |
| Incwm arall | 5 | 4,280 | 3,322 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 6 | 2,014 | 1,272 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **85,923** | **79,653** |
| **GWARIANT** | | | |
| Costau staff | 7 | 55,483 | 52,777 |
| Costau ailstrwythuro staff | 7 | 1,796 | 1,007 |
| Treuliau gweithredu eraill | 8 | 19,682 | 19,913 |
| Dibrisio ac Amorteiddio | 10 | 7,893 | 6,875 |
| Costau llog a chyllid arall | 9 | 132 | 157 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **84,986** | **80,729** |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn eitemau eithriadol** | | 2,733 | (69) |
| Costau ailstrwythuro staff | | 1,796 | 1,007 |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn unrhyw enillion a cholledion eraill** | | 937 | (1,076) |
| Elw ar waredu asedau | | 7 | 3 |
| **Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn** | | 944 | (1,073) |
| (colledion)/enillion actiwaraidd o ran cynlluniau pensiwn | 22 | (15,590) | 8,128 |
| **Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **(14,646)** | **7,055** |
| **(pob un yn anghyfyngedig)** | | | |

**Datganiad o newidiadau mewn arian wrth gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2025**

| | Cronfa incwm a gwariant | Arian wrth gefn cyfyngedig | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Awst 2023** | 43,869 | 64 | 4,752 | 48,685 |
| Diffyg am y flwyddyn | (1,073) | - | - | (1,073) |
| Incwm cynhwysfawr arall | 8,128 | - | - | 8,128 |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2024** | **50,924** | **64** | **4,752** | **55,740** |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 944 | - | - | 944 |
| Incwm cynhwysfawr arall | (15,590) | - | - | (15,590) |
| | **(14,646)** | **-** | **-** | **(14,646)** |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2025** | **36,278** | **64** | **4,752** | **41,094** |

## Mantolenni ar 31 Gorffennaf 2025

| | Noder | Coleg 2025 | Coleg 2024 |
|---|---|---|---|
| **Asedau Anghyfredol** | | **£'000** | **£'000** |
| Asedau diriaethol sefydlog | 10 | 78,450 | 83,167 |
| Asedau anniriaethol sefydlog | 11 | 1,057 | - |
| Asedau gwaddol | 13 | - | 64 |
| Atebolrwydd Pensiwn Budd-dal Diffiniedig | 22 | - | 14,345 |
| | | **79,507** | **97,576** |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Stociau | 14 | 2 | 2 |
| Masnach a derbyniadau eraill | 15 | 2,252 | 1,962 |
| Blaendaliadau tymor byr | 15 | 20,000 | 21,000 |
| Arian Parod | | 5,923 | 6,462 |
| | | **28,177** | **29,426** |
| Tynnu credydwyr - symiau sy'n daladwy ymhen blwyddyn | 16 | (12,054) | (14,353) |
| **Asedau Cyfredol Net** | | **16,123** | **15,073** |
| **Cyfanswm asedau ar ôl tynnu rhwymedigaethau cyfredol** | | **95,630** | **112,649** |
| Credydwyr - symiau sy'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn | 17 | (53,538) | (54,824) |
| **Asedau Net cyn darpariaethau** | | **42,092** | **57,825** |
| **Pensiynau** | | | |
| Darpariaethau eraill | 19 | (998) | (2,085) |
| | | **(998)** | **(2,085)** |
| **Asedau Net** | | **41,094** | **55,740** |
| **Arian wrth gefn cyfyngedig** | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn - cronfa waddol | | 64 | 64 |
| **Arian wrth gefn anghyfyngedig** | | | |
| Cronfa incwm a gwariant | | 36,278 | 50,924 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | 4,752 | 4,752 |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | | **41,094** | **55,740** |

Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 37 i 62 gan y Gorfforaeth ar 9 Rhagfyr 2025 a'u llofnodi ar ran y Gorfforaeth gan

| ..................................... | ....................................... | ............................................. |
|---|---|---|
| **Ms S Ball** | **Ms Nicola Gamlin** | **Mrs Lynda Astell** |

**Cadeirydd** **Pennaeth/Prif Weithredwr** **Dirprwy Bennaeth**

## Datganiad o lif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2025

| | 2025<br>£'000 | 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| ***Llif arian o weithgareddau gweithredol*** | | |
| Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn cyn unrhyw enillion a cholledion eraill | 944 | (1,076) |
| ***Addasiad ar gyfer eitemau anariannol*** | | |
| Dibrisiant | 7,893 | 6,875 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | (290) | 951 |
| Gostyngiad mewn credydwyr | (2,680) | (8,433) |
| Gostyngiad mewn darpariaethau | (1,087) | (90) |
| Costau pensiwn tynnu cyfraniadau sy'n daladwy | (519) | (345) |
| Rhyddhau grant cyfalaf gohiriedig | (3,304) | (3,293) |
| ***Addasiad ar gyfer buddsoddi neu gyllido gweithgareddau*** | | |
| Incwm o fuddsoddiadau | (2,014) | (1,272) |
| Llog yn daladwy | 132 | 157 |
| (Elw) o werthu asedau sefydlog | (7) | (3) |
| **Llif Arian Net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredol** | **(932)** | **(6,529)** |
| ***Llif arian a ddefnyddir i weithgareddau buddsoddi*** | | |
| Elw o werthu asedau sefydlog | 7 | 3 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 1,133 | 989 |
| Taliadau o/(i) flaendaliadau ar alw tymor byr | 1,000 | (21,000) |
| Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog | (3,538) | (3,096) |
| Grant gohiriedig a gafwyd | 2,247 | 2,950 |
| **Llif arian net a ddefnyddir mewn gweithgareddau buddsoddi** | **849** | **(20,154)** |
| ***Llif arian o weithgareddau ariannu*** | | |
| Llog a dalwyd | (135) | (157) |
| Ad-dalu symiau a fenthyciwyd drwy fenthyciadau | (321) | (303) |
| **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | **(456)** | **(460)** |
| **Gostyngiad mewn arian ac eitemau cyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn** | **(539)** | **(27,143)** |
| **Arian parod ac eitemau sydd gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | **6,462** | **33,605** |
| **Arian parod ac eitemau sydd gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **5,923** | **6,462** |

## 1. DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU A THECHNEGAU AMCANGYFRIF

Cymhwyswyd y polisïau cyfrifyddu canlynol yn gyson wrth ymdrin ag eitemau y'u hystyrir yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

**Sail paratoi**

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r *Datganiad o Arferion Argymelledig: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019 (SORP AB AU 2019), Cyfarwyddyd Cyfrifon Medr ar gyfer colegau addysg bellach yng Nghymru ar gyfer 2024/25 ac yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol 102 - "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon"* (FRS 102). Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi cymhwyso gofyniad budd cyhoeddus perthnasol FRS 102.

Mae paratoi datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio â FRS 102 yn gofyn am ddefnyddio rhai amcangyfrifon cyfrifyddu pwysig. Mae hefyd yn gofyn i reolwyr fod yn feirniadol wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r coleg.

**Sail cyfrifyddu**

Paratoir y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd drwy ail-brisio asedau sefydlog penodol a'r Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio.

**Sail cyfuno**

Nodir is-gwmnïau'r Coleg yn nodyn 11, ac mae pob un yn segur ar hyn o bryd. Nid yw gweithgareddau'r undeb myfyrwyr wedi'u cynnwys oherwydd nad yw'r Coleg yn rheoli'r gweithgareddau hynny. O'r herwydd, mae datganiadau ariannol rhiant a chyfunol y Gorfforaeth yr un fath.

**Busnes Gweithredol**

Mae gweithgareddau'r Coleg, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol, wedi'u nodi yn yr Adroddiad Aelodau. Mae sefyllfa ariannol y Coleg, ei lif arian, ei ddiddymiadau a'i fenthyciadau wedi'u cyflwyno yn y Datganiadau Ariannol a'r Nodiadau cysylltiedig.

Ar hyn o bryd, mae gan y Coleg £2.2m o fenthyciadau (2024: £2.5m) yn daladwy gyda bancwyr ar delerau a drafodwyd ar ddyddiadau gwahanol. Mae amcanestyniadau ariannol a rhagolygon y Coleg yn dangos y bydd yn gallu gweithredu yn y cyfleuster hwn sy'n bodoli am y dyfodol rhagweladwy. Nid oes unrhyw gyfamodau'n gysylltiedig â'r benthyciadau hyn.

Felly, mae'r Coleg yn disgwyl yn rhesymol bod ganddo adnoddau digonol i barhau i fodoli'n weithredol am y dyfodol rhagweladwy, ac am y rheswm hwn bydd yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol.

**Cydnabod incwm**

Mae grantiau refeniw Llywodraeth Cymru a Medr yn cynnwys grantiau rheolaidd a grantiau eraill gan gyrff cyllido a chyfrifir am y grantiau eraill o dan y model cronni fel y caniateir gan FRS 102. Mae grantiau rheolaidd gan gyrff cyllido yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo. Pan fo posibilrwydd i grant gael ei gymryd yn ôl oherwydd cyflawniad annigonol neu unrhyw reswm arall, cyfrifir am y posibilrwydd hwn tan mae Llywodraeth Cymru neu Medr wedi cadarnhau a fydd yr arian yn cael ei gymryd yn ôl.

Cydnabyddir grantiau refeniw eraill gan Lywodraeth Cymru neu Medr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo neu'n unol â'r gwariant y mae'r grant yn ei gyllido.

Cydnabyddir incwm a geir cyn gwariant fel incwm gohiriedig yn adran credydwyr y fantolen a’i ryddhau i incwm wrth i’r gwariant gael ei ysgwyddo neu wrth i’r amodau perfformio perthnasol eraill ddigwydd.

*Cyllid grant cyfalaf*

Mae pob grant cyfalaf wedi’i gyfalafu, a chaiff ei gadw fel incwm gohiriedig a’i gydnabod yn yr adran incwm am oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased, dan y model cronni fel y caniateir gan FRS 102.

*Incwm o ffioedd*

Caiff incwm o ffioedd dysgu ei nodi’n gros o unrhyw wariant nad yw'n ostyngiad a chaiff ei gydnabod yn y cyfnod y caiff ei dderbyn ynddo. Ar gyfer Incwm Ffioedd Addysg Uwch mae’r Coleg yn derbyn y ffioedd dysgu llawn ond mae gofyn iddo dalu cyfran o’r ffioedd dysgu i Brifysgolion partner. Mae’r Coleg yn cydnabod ei incwm ffioedd dysgu ar ôl tynnu’r gyfran honno.

*Incwm arall*

Mae incwm arall yn cynnwys incwm o ddigwyddiadau’r Coleg, cyfleusterau arlwyo’r Coleg, salonau gwallt, rhentu lleoliadau’r Coleg a thrafodiadau amrywiol eraill. Cydnabyddir yr incwm hwn pan wneir gwerthiant neu pan ddigwyddir y digwyddiad y mae’n ymwneud ag ef.

*Incwm o fuddsoddiadau*

Mae incwm o log ar gyfrifon banc y Coleg, buddsoddiadau tymor byr a’r llog net ar y cynllun pensiwn wedi’i ddiffinio yn cael eu cydnabod yn y cyfnod cronni y maent yn berthnasol iddo.

**Trefniadau asiantaeth**

Mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant wrth gasglu a thalu cronfeydd cymorth disgresiynol penodol. Eithrir y taliadau hyn a dderbynnir gan y cyrff cyllido ac alldaliadau dilynol i fyfyrwyr o incwm a gwariant y Coleg pan fo’r risg yn fach iawn i’r Coleg neu pan fo’r Coleg yn cael ychydig iawn o fudd economaidd sy’n gysylltiedig â’r trafodiad.

**Cyfrifo am fuddion ar ôl cyflogaeth**

Caiff buddion ar ôl cyflogaeth i weithwyr y coleg eu darparu’n bennaf gan y Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Mae’r rhain yn gynlluniau buddion wedi’u diffinio.

Mae’r CPA yn gynllun nas ariennir. Cyfrifir cyfraniadau i’r CPA i rannu costau pensiynau dros oes gweithio’r gweithwyr gyda’r Coleg ac mae’n gwneud hynny mewn modd y mae cost y pensiwn yn ganran sefydlog iawn o gyfran pensiwn y gyflogres ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Pennir y cyfraniadau gan actiwarïaid cymwys ar sail prisiadau yn defnyddio dull buddion arfaethedig. Mae’r CPA yn gynllun aml-gyflogwr ac nid yw'r Coleg yn gallu adnabod ei gyfran o'r asedau sylfaenol a rhwymedigaeth y cynllun yn gyson a rhesymol. Felly, caiff y CPA ei drin fel cynllun cyfraniadau diffiniedig a chydnabyddir y cyfraniadau fel gwariant yn y datganiad incwm yn y cyfnodau y mae gweithwyr yn gwasanaethu ynddynt.

Mae’r LGPS yn gynllun a ariennir. Mesurir asedau’r LGPS gan ddefnyddio gwerthoedd teg terfynol. Mesurir rhwymedigaethau'r LGPS gan ddefnyddio'r dull credyd unedau a'u disgowntio ar y gyfradd adenillion gyfredol ar fond corfforaethol ansawdd uchel sydd â thymor ac arian cyfred cyfwerth â'r rhwymedigaethau. Caiff prisiadau'r actiwaraidd eu caffael o leiaf bob tair blynedd a'u diweddaru ar ddyddiad pob mantolen. Y symiau a godir ar warged gweithredu yw costau cyfredol y gwasanaeth a chostau cyflwyno i'r cynllun, newidiadau mewn buddion, taliadau a chwtogiadau. Cânt eu cynnwys fel rhan o gostau staff pan gânt eu hysgwyddo. Caiff llog net ar yr ased/rhwymedigaeth buddion wedi’u diffinio hefyd ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ac mae’n cynnwys cost y llog ar y rhwymedigaeth buddion wedi’u diffinio ac incwm llog ar asedau’r cynllun. Caiff ei gyfrifo drwy luosi gwerth teg asedau’r cynllun ar ddechrau’r flwyddyn ariannol gyda’r gyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau’r budd. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr incwm llog ar asedau'r cynllun a'r adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn cael ei gydnabod yn enillion a cholledion eraill.

Mae enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn ddi-oed yn yr adran enillion a cholledion cydnabyddedig eraill.  Lle mae gwerth asedau pensiwn yn fwy na'r rhwymedigaethau pensiwn nid yw gwarged pensiwn ond yn cael ei gydnabod pan mae yna sicrwydd ynghylch gallu'r Coleg i adfer y warged drwy gyfraniadau gostyngedig yn y dyfodol. Mae Adroddiad Terfyn Uchaf Asedau'r Actiwari ar 31 Gorffennaf 2025 yn rhagweld bod cyfraniadau disgwyliedig y dyfodol ar hyn o bryd yn llai na'r costau gwasanaeth disgwyliedig yn y dyfodol ar hyn o bryd am oes y pensiwn ac felly ni ellir cydnabod unrhyw ased.  Felly fe dynnwyd yr ased o'r fantolen yn ôl addasiad drwy incwm cynhwysfawr arall.

**Buddion cyflogaeth tymor byr**

Mae buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau wedi'u digolledu (tâl gwyliau) yn cael eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn darparu gwasanaeth i'r Coleg. Caiff unrhyw fuddion heb eu defnyddio eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol y disgwylia'r Coleg ei dalu o ganlyniad i'r hawl heb ei defnyddio.

**Pensiynau Uwch**

Caiff cost wirioneddol unrhyw bensiwn uwch cyfredol i gyn-aelod o staff ei dalu gan y Coleg bob blwyddyn. Caiff amcan o gost ddisgwyliedig y dyfodol o unrhyw godiad i bensiwn cyfredol cyn-aelod o staff ei godi'n llawn i SOCI y Coleg yn y flwyddyn y mae'r aelod o staff yn ymddeol. Yn y blynyddoedd dilynol, codir tâl i'r darpariaethau yn y fantolen gan ddefnyddio'r daenlen pensiwn uwch a ddarparwyd gan y cyrff cyllido.

**Asedau diriaethol sefydlog**

Mae asedau diriaethol sefydlog yn cael eu datgan ar gost wedi tynnu dibrisiant cronnus a cholledion amhariadau cronnus. Mae rhai eitemau'r asedau sefydlog sydd wedi cael eu hail-brisio i werth teg naill ai ar neu cyn dyddiad y trosglwyddiad i SORP AB AU 2015 yn cael eu mesur yn ôl cost dybiedig, sef swm yr ailbrisiad ar ddyddiad yr ailbrisiad hwnnw.

Cynhelir adolygiad ar gyfer dangosyddion amhariadau yn flynyddol. Cynhelir asesiad amhariad os yw digwyddiadau neu newid mewn amgylchiadau yn awgrymu efallai nad yw swm cario ymlaen unrhyw ased sefydlog yn adenilladwy.

*Tir ac adeiladau*

Mae adeiladau rhydd-ddaliadol yn dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

- Adeiladau a gaffaelwyd cyn mis Awst 2002 – 25 mlynedd
- Adeiladau a gaffaelwyd ar ôl mis Awst 2002 – 50 mlynedd
- Seilwaith Mecanyddol a Thrydanol - 25 mlynedd
- Gwaith adnewyddu - 10 mlynedd

Nid yw tir rhydd-ddaliadol yn dibrisio (oni bai ei fod ar brydles hir).

Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig i'r Coleg, rhwng 25 a 50 mlynedd. Mae gan y Coleg bolisi o ddibrisio addasiadau sylweddol i adeiladau am gyfnod eu hoes economaidd ddefnyddiol, sef rhwng 25 a 50 mlynedd.

Mae Seilwaith Mecanyddol a Thrydanol wedi'i gynnwys yn nodiadau'r cyfrifon fel gosodiadau a ffitiadau.

Pan fo tir ac adeiladau'n cael eu caffael gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel yr uchod. Mae'r grantiau cysylltiedig yn cael eu credydu i gyfrif incwm gohiriedig yn yr adran credydwyr a'u rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant am oes economaidd ddefnyddiol

ddisgwyliedig yr asedau perthnasol ar sail systematig sy'n gyson â'r polisi dibrisio. Dyrannir yr incwm gohiriedig rhwng credydwyr sy'n ddyledus ymhen blwyddyn a'r rhai sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn.

Wrth fabwysiadu FRS 102, dilynodd y Coleg y ddarpariaeth drosiannol i gadw gwerth llyfrau tir ac adeiladau, a gafodd eu hail-brisio yn 1993 pan gafodd y coleg ei ymgorffori, yn ôl cost dybiedig ond dewisodd beidio â mabwysiadu polisi ailbrisio'r eiddo hyn yn y dyfodol.

*Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu*

Caiff asedau sy'n cael eu hadeiladu'n eu cyfrifyddu yn ôl cost, yn seiliedig ar werth tystysgrifau penseiri a chostau uniongyrchol eraill, a ysgwyddwyd hyd at 31 Gorffennaf. Ni chânt eu dibrisio tan y cânt eu defnyddio.

*Gwariant dilynol ar asedau sefydlog sy'n bodoli*

Pan ysgwyddir gwariant sylweddol ar asedau diriaethol sefydlog ar ôl eu prynu, caiff ei godi i'r SOCI yn y flwyddyn ariannol y caiff ei ysgwyddo, oni bai ei fod yn cynyddu buddion y dyfodol i'r Coleg, ac os hynny caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio fel sy'n berthnasol.

*Cyfarpar*

Cydnabyddir cyfarpar sy'n costio llai na £5,000 fesul pob eitem unigol fel gwariant yn y flwyddyn ariannol y mae'n cael ei gaffael. Caiff pob cyfarpar arall ei gyfalafu yn ôl cost.
Caiff cyfarpar wedi'i gyfalafu ei ddibrisio ar sail llinell syth dros ei oes economaidd ddefnyddiol, fel a ganlyn:

- offer technegol 5 mlynedd
- cerbydau modur 5 mlynedd
- offer cyfrifiadurol 4 blynedd
- dodrefn, gosodiadau a ffitiadau 10 mlynedd

**Asedau anniriaethol sefydlog**

Mae asedau anniriaethol sefydlog yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadur. Caiff y rhain eu cyfalafu pan gânt eu prynu a'u hamorteiddio dros gyfnod y drwydded feddalwedd.

**Benthyciadau Banc a Llog sy'n Daladwy**

Cydnabyddir benthyciadau yn ôl y swm a geir, cydnabyddir llog sy'n daladwy yn ôl croniad dros gyfnod y benthyciad.

**Asedau ar brydles**

Caiff costau mewn perthynas â gweithredu prydlesi eu codi ar sail llinell syth dros oes y brydles. Caiff unrhyw gymelliadau neu bremiymau prydlesu sy'n ymwneud â phrydlesi a lofnodwyd eu rhannu dros y cyfnod prydlesu lleiaf.

Caiff cytundebau prydlesu sy'n trosglwyddo'r rhan fwyaf o'r buddion a'r risgiau perchnogaeth ased i'r Coleg eu trin fel prydlesi cyllid. Caiff asedau a ddelir dan brydlesi cyllid eu cydnabod yn gyntaf ar werth teg yr ased ar brydles (neu, os yn llai, gwerth cyfredol lleiaf y taliadau prydles) ar ddechrau cyfnod y brydles. Mae'r rhwymedigaeth gyfatebol i'r prydleswr wedi'i chynnwys yn y fantolen fel rhwymedigaeth prydles gyllid. Mae asedau a gedwir dan brydlesi Cyllid yn cael eu cynnwys yn asedau diriaethol sefydlog a'u dibrisio a'u hasesu am golled amhariad yn yr un ffordd ag asedau sy'n eiddo. Mae taliadau lleiaf prydlesi'n cael eu neilltuo rhwng y gost gyllid a'r gostyngiad o rwymedigaeth sy'n weddill. Neilltuir y costau cyllid dros gyfnod y brydles yn gymesur â'r elfen gyfalaf sy'n weddill.

**Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau**

Caiff buddsoddiadau mewn is-gwmnïau eu cyfrif ar gost tynnu unrhyw amhariad sydd yn y datganiadau ariannol unigol.

**Stocrestrau**

Nodir stocrestrau ar derfyn isaf eu cost (gan ddefnyddio'r dull cyntaf i mewn cyntaf allan) a gwerth realeiddiadwy net, sef pris gwerth tynnu costau i gwblhau a gwerthu. Pryd bynnag sy'n angenrheidiol, gwneir darpariaeth ar gyfer eitemau darfodedig, diffygiol ac sy'n symud yn araf.

**Blaendaliadau tymor byr**

Mae blaendaliadau tymor byr yn cynnwys buddsoddiadau cyfnod penodol gyda banciau masnachol am gyfnod o 3 i 12 mis. Cydnabyddir y rhain yn ôl gwerth y blaendal. Cydnabyddir llog yn ôl croniad dros oes y blaendal.

**Arian parod a chyfwerth ag arian parod**

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a blaendaliadau sy'n daladwy ar alw. Mae blaendaliadau'n ad-daladwy ar alw os ydynt ar gael yn ymarferol ymhen 24 awr heb gosb.

Mae eitemau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau tymor byr, hylifedd uchel sy'n cyfnewid yn hawdd i symiau hysbys o arian parod heb risg sylweddol i newid mewn gwerth. Mae buddsoddiad yn cael ei gyfrif fel cyfwerth ag arian parod pan mae'n aeddfedu ymhen 3 mis neu lai o'r dyddiad caffael.

**Rhwymedigaethau ariannol ac ecwiti**

Dosbarthir rhwymedigaethau ariannol ac ecwiti yn ôl sylwedd rhwymedigaethau contractiol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol.

Mae'r holl fenthyciadau, buddsoddiadau a'r blaendaliadau tymor byr a ddelir gan y Coleg yn cael eu dosbarthu fel offer ariannol sylfaenol yn unol â FRS 102. Caiff yr offer hyn eu cofnodi'n wreiddiol yn ôl pris y trafodiad tynnu unrhyw gostau trosglwyddo (cost hanesyddol). Yn ôl FRS 102 mae'n ofynnol i offer ariannol sylfaenol yna gael eu mesur yn ôl cost amorteiddio.

**Treth**

Credir y bydd y Coleg yn llwyddo yn y profion a nodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly mae'n bodloni diffiniad cwmni elusennol at ddibenion treth gorfforaeth y DU. Felly, mae'n bosibl bod y Coleg wedi'i eithrio rhag gorfod talu treth mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a geir o fewn categorïau yr ymdrinnir â nhw yn adrannau 478-488 Deddf y Dreth Gorfforaeth 2010 neu Adran 256 Deddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y caiff incwm neu enillion o'r fath eu cymhwyso'n benodol at ddibenion elusennol.

Mae'r Coleg wedi'i eithrio'n rhannol mewn perthynas â Threth ar Werth, felly gall adennill rhan fechan o'r TAW a godwyd ar ei fewnbynnau. Mae TAW ar fewnbynnau na ellir ei hadennill wedi'i chynnwys yng nghostau mewnbynnau o'r fath a'u hychwanegu at y gost o asedau sefydlog diriaethol fel sy'n briodol, lle mae'r mewnbynnau eu hunain yn asedau sefydlog diriaethol yn eu natur.

**Darpariaethau ac atebolrwydd dibynnol**

Cydnabyddir darpariaethau pan

- fo gan y Coleg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol
- ei bod yn debygol y bydd angen trosglwyddo budd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth a
- gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pan fo effaith gwerth amser arian yn arwyddocaol, mae'r swm y disgwylir sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth yn cael ei gydnabod yn ôl gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio cyn treth. Mae dadwneud y disgownt yn cael ei gydnabod fel cost gyllid yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'n dod i'r amlwg.

Mae atebolrwydd dibynnol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Coleg y bydd ei bodolaeth yn cael ei gadarnhau dim ond drwy ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o fewn rheolaeth y Brifysgol yn gyfan gwbl. Gall rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd godi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau digwyddiadol eu cydnabod yn y fantolen ond cânt eu datgelu yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**Dyfarniadau wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu a phrif ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif**

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r rheolwyr wedi dyfarnu'r canlynol:

- Pennu a oes unrhyw ddangosyddion o ddiffyg yn asedau diriaethol y grŵp. Mae'r ffactorau a ystyriwyd wrth gyrraedd penderfyniad o'r fath yn cynnwys dichonoldeb economaidd a pherfformiad ariannol disgwyliedig yr ased yn y dyfodol a, phan mae'n gydran uned cynhyrchu arian mwy, dichonoldeb a pherfformiad disgwyliedig yr uned honno yn y dyfodol.

*Ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif*

- *Asedau diriaethol sefydlog*

  Caiff asedau diriaethol sefydlog eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol, gan ystyried gwerthoedd gweddillol, pan fo'n briodol. Asesir oes wirioneddol yr asedau a'r gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol a gallant amrywio yn dibynnu ar sawl ffactor. Wrth ailasesu oes ased, ystyrir ffactorau fel arloesedd technolegol a rhaglenni cynnal a chadw. Mae asesiadau o werth gweddillol yn ystyried materion fel amodau'r farchnad yn y dyfodol, faint o oes sydd gan yr ased yn weddill a chostau gwaredu rhagamcanol.

- *Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol*

  Mae gwerth cyfredol buddion gwarged neu ddiffyg wedi'u diffinio y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dibynnu ar nifer o ffactorau a bennir ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio amrywiaeth o ragdybiaethau. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i bennu'r gost net ar gyfer pensiynau yn cynnwys y gyfradd ddisgownt. Bydd unrhyw newid yn y rhagdybiaethau hyn, sy'n cael eu datgelu yn nodyn 22, yn effeithio ar swm cario ymlaen y gwarged pensiwn. Yn ogystal, mae dull treigl sy'n rhagamcanu canlyniadau o'r prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf a wnaed ar 31 Mawrth 2022 wedi'i ddefnyddio gan yr actwari i brisio'r pensiwn ar 31 Gorffennaf 2025. Byddai unrhyw wahaniaethau rhwng y ffigyrau sy'n deillio o'r dull treigl a phrisiad actiwaraidd llawn yn effeithio ar swm cario ymlaen y gwarged pensiwn.

- Cydnabod gwarged pensiwn

Wrth ystyried y gwarged sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y coleg, nid yw'r coleg wedi ystyried gwarged cyfrifyddu oherwydd nad yw'n fodlon y bydd yn cael gostyngiadau mewn costau gwasanaeth yn y dyfodol o ganlyniad i'r sefyllfa warged net.

## 2. GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Grantiau Rheolaidd** | | |
| Grantiau Rheolaidd Llywodraeth Cymru | 61,266 | 57,053 |
| Dysgu Seiliedig ar Waith | 2,385 | 2,247 |
| Cyhoeddi Grantiau Cyfalaf Gohiriedig Llywodraeth Cymru | 2,665 | 2,654 |
| Grantiau penodol eraill | 9,648 | 9,302 |
| **Cyfanswm** | **75,964** | **71,256** |

Yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, cafodd y Coleg £1,100k (2023/24: £1,140k) gan Lywodraeth Cymru fel Cronfeydd Cefnogi Dysgu wedi'u clustnodi (LSF). Gweinyddwyd y cronfeydd yn unol â'r telerau ac amodau a nodir gan Lywodraeth Cymru ac ni chawsant eu cofnodi yng nghyfrif incwm a gwariant y Coleg. Gweler manylion y grant hwn yn Nodyn 24.

## 3. FFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ffioedd - Addysg Bellach | 651 | 595 |
| Ffïoedd - Addysg Uwch | 2,955 | 2,703 |
| Cyfanswm ffioedd dysgu | 3,606 | 3,298 |
| Contractau AALl | 59 | 200 |
| **Cyfanswm** | **3,665** | **3,498** |

## 4. CONTRACTAU A GRANTIAU ERAILL

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Grantiau Ewropeaidd | - | 305 |
| **Cyfanswm** | **-** | **305** |

## 5. INCWM ARALL

| | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Arlwyo | 37 | 40 |
| Gweithgareddau cynhyrchu incwm eraill | 2,263 | 879 |
| Rhyddhau grantiau cyfalaf gohiriedig eraill - ddim gan Lywodraeth Cymru | 639 | 639 |
| Incwm amrywiol | 1,341 | 1,764 |
| **Cyfanswm** | **4,280** | **3,322** |

## 6. INCWM BUDDSODDIAD

| | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Llog banc sy'n dderbyniadwy | 1,288 | 989 |
| Llog net sy'n dderbyniadwy ar bensiwn | 726 | - |
| **Cyfanswm** | **2,014** | **989** |

## 7. COSTAU STAFFIO

**Nifer y staff**

Y nifer cyfartalog o unigolion (gan gynnwys staff rheoli allweddol) a gyflogwyd gan y Coleg yn ystod y flwyddyn, a ddisgrifir fesul person, oedd:

| | 2025 Nifer | 2024 Nifer |
|---|---|---|
| Staff addysgu | 563 | 584 |
| Staff nad ydynt addysgu | 653 | 664 |
| **Cyfanswm** | **1,216** | **1,248** |

| **Costau staff i'r unigolion uchod** | **2025 £'000** | **2024 £'000** |
|---|---|---|
| Taliadau a chyflogau | 40,697 | 40,242 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 4,644 | 3,956 |
| Costau pensiwn eraill | 9,167 | 8,558 |
| Symudiad mewn tâl gwyliau | 975 | 21 |
| | 55,484 | 52,777 |
| Costau diswyddo staff eithriadol | 1,796 | 1,007 |
| | **57,280** | **53,784** |

**COSTAU STAFFIO - (Parhad)**

**Costau cyflog yn ôl math y gweithiwr**

| | **2025**<br>**£'000** | **2024**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| Adrannau addysgu | 31,248 | 29,893 |
| Gwasanaethau cefnogi addysgu | 7,861 | 7,373 |
| Gwasanaethau gweinyddol a chanolog | 15,033 | 14,892 |
| Safleoedd | 812 | 660 |
| Costau diswyddo staff eithriadol | 1,796 | 1,007 |
| Symudiad darpariaeth pensiwn uwch | (111) | 99 |
| Ardoll brentisiaethau | 185 | 184 |
| Cost gwasanaeth FRS102 tynnu cyfraniadau | (519) | (345) |
| Symudiad croniad tâl gwyliau | 975 | 21 |
| **Cyfanswm** | **57,280** | **53,784** |

**Staff rheoli allweddol**

Staff Rheoli Allweddol yw'r unigolion hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Coleg a chânt eu cynrychioli gan Dîm Uwch Arwain y Coleg (SLT) sy'n cynnwys y Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth, Is-benaethiaid, Penaethiaid Cynorthwyol a Chyfarwyddwyr.

**Enillion unigolion staff rheoli allweddol, y Swyddog Cyfrifyddu a staff eraill sydd ar gyflog uwch.**

Nifer y staff rheoli allweddol a staff eraill a gafodd daliadau blynyddol, ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys buddion mewn nwyddau oedd:

| | **2025**<br>**Nifer** | **2024**<br>**Nifer** |
|---|---|---|
| Y nifer o staff rheoli allweddol gan gynnwys y Swyddog Cyfrifyddu oedd: | 12.62 | 13.33 |

**COSTAU STAFFIO - (Parhad)**

**Gwneir iawndaliadau i staff rheoli allweddol fel a ganlyn:**

| | **2025** | **2024** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau | 1,241 | 1,255 |
| Lwfans Car | 31 | 18 |
| Cynllun Iechyd | 9 | 8 |
| Cyfraniadau pensiwn | 348 | 281 |
| **Cyfanswm y Taliadau** | **1,628** | **1,562** |

Mae'r iawndal uchod yn cynnwys y symiau sy'n daladwy i'r Penaethiaid sydd yn y swyddi yn ystod y flwyddyn. Y pennaeth yw'r swyddog cyfrifyddu a hefyd yr aelod staff sydd ar y cyflog uchaf. Cyn dod yn Bennaeth, roedd Nicola yn cael ei chyflogi gan y Coleg ac fe ddatgelir ei chydnabyddiaeth ariannol yn ystod pob swydd. Mae ei chyflog a'i chydnabyddiaeth ariannol fel a ganlyn:

**Guy Lacey Swyddog Cyfrifyddu tan 6 Medi 2024**

| | **2025** | **2024** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyflog | 19 | 191 |
| Cyfraniadau pensiwn | 4 | 38 |
| **Cyfanswm y Taliadau** | **23** | **229** |

**Nicola Gamlin Swyddog Cyfrifyddu o 6 Medi 2024**

| | **2025** | **2024** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyflog | 165 | 123 |
| Cyfraniadau pensiwn | 45 | 31 |
| **Cyfanswm y Taliadau** | **210** | **154** |

**Perthynas tâl a chyflog y Pennaeth/Prif Weithredwr fel lluosrif**

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Pennaeth fel lluosrif o ganolrif pob staff | 3.94 | 4.46 |
| Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol y Pennaeth fel lluosrif o ganolrif pob staff | 4.45 | 4.71 |

Mae'r ffigyrau 2025 yn seiliedig ar yr adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd ar gyfer mis Mawrth 2025 ac nid ydynt yn cynnwys staff asiantaeth. Mae'r Coleg ar hyn o bryd yn contractio'r gwasanaethau glanhau ac arlwyo'r Coleg, felly eithrir y costau staffio hyn o'r cyfrifiad.

**COSTAU STAFFIO - (Parhad)**

Ni dalwyd iawndal am golli swydd i gyn-aelodau allweddol o'r tîm rheoli.

Ni chafodd aelodau'r Gorfforaeth, ac eithrio'r Swyddog cyfrifyddu ac aelodau staff, unrhyw daliad gan y sefydliad ar wahân i ad-dalu costau teithio a threuliau cynhaliaeth a ysgwyddwyd yn ystod eu dyletswyddau.

**Staff ar Gyflogau Uwch**

Mae nifer y staff yr aeth eu henillion yn ystod y flwyddyn (ac eithrio costau pensiwn) y tu hwnt i £60,000 yn cael ei ddatgelu isod:

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| £60,001 i £65,000 y flwyddyn | 5 | 27 |
| £65,001 i £70,000 y flwyddyn | 29 | 1.58 |
| £70,001 i £75,000 y flwyddyn | 6 | 5.66 |
| £75,001 i £80,000 y flwyddyn | 3 | 0.34 |
| £80,001 - £85,000 y flwyddyn | 5 | 7 |
| £85,001 i £90,000 y flwyddyn | 5 | 0.75 |
| £90,001 i £95,000 y flwyddyn | 3 | - |
| £100,001 i £105,000 y flwyddyn | 1 | - |
| £105,001 i £110,000 y flwyddyn | 1 | - |
| £120,001 i £125,000 y flwyddyn | - | 1 |
| £125,001 i £130,000 y flwyddyn | - | 1 |
| £135,001 i £140,000 y flwyddyn | 1 | - |
| £165,001 i £170,000 y flwyddyn | 1 | - |
| £185,001 - £190,000 y flwyddyn | - | 1 |
| **Cyfanswm** | **60** | **45.33** |

**Taliadau diswyddo**

Daeth cyfanswm taliadau diswyddo yn ystod y flwyddyn i £1,378k (2024: £1,007k). Gwerth taliadau contractiol oedd £746k a gwerth taliadau nad oeddent yn rhai contractiol oedd £632k. Cymeradwywyd yr holl daliadau diswyddo gan y Bwrdd. Mae gweddill y costau ailstrwythuro staff yn cynnwys taliadau gwerth £104k yn lle gweithio cyfnod rhybudd a chostau straen pensiwn gwerth £314k.

Talodd y coleg 107 o daliadau diswyddo yn y flwyddyn, a ddatgelir yn y bandiau canlynol:

| | |
|---|---|
| £0 - £25,000 | 95 |
| £25,001 - £50,000 | 12 |

**COSTAU STAFFIO - (Parhad)**

Mae elfennau nad ydynt yn gontractiol o'r taliadau diswyddo wedi'u cynnwys yn y costau ailstrwythuro staff ac maent yn dod i gyfanswm o £632k. Yn unigol, dyma'r taliadau: £126.96, £149.84, £205.46, £706.17, £706.17, £753.07, £864.17, £1,060.59, £1,126.85, £1,158.52, £1,301.30, £1,614.11, £1,742.15, £2,024.31, £2,024.31, £2,121.17, £2,247.75, £2,361.70, £2,361.70, £2,536.32, £2,600.88, £2,651.47, £2,680.73, £2,962.30, £3,117.76, £3,383.79, £3,472.20, £3,631.74, £3,665.26, £3,764.76, £3,977.20, £4,048.62, £4,154.88, £4,555.11, £4,643.20, £4,643.20, £4,643.20, £4,705.95, £4,723.39, £4,723.39, £4,723.39, £4,723.39, £4,723.39, £4,723.39, £4,815.40, £4,815.40, £4,993.30, £4,993.30, £4,993.30, £4,993.30, £5,060.78, £5,060.78, £5,229.12, £5,236.08, £5,326.08, £5,387.53, £5,462.92, £5,499.00, £5,499.00, £5,726.42, £5,740.70, £5,937.98, £5,972.20, £5,972.20, £5,991.96, £6,019.25, £6,072.93, £6,072.93, £6,072.93, £6,072.93, £6,072.94, £6,354.53, £6,851.80, £6,851.80, £6,851.80, £6,851.80, £6,902.06, £7,027.55, £7,093.55, £7,422.47, £7,422.47, £7,489.95, £7,500.00, £7,529.52, £7,704.64, £7,749.40, £7,808.56, £7,808.76, £8,097.24, £8,594.60, £8,784.60, £9,098.16, £9,286.40, £9,286.40, £9,784.17, £9,784.17, £9,986.60, £9,986.60, £9,986.60, £9,986.60, £10,063.80, £10,393.20, £10,408.00, £10,722.00, £12,483.25, £20,479.33, £25,000, £25,000

**8. TREULIAU GWEITHREDU ERAILL**

| | **2025** | **2024** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Costau'r adrannau addysgu | 1,137 | 1,142 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 110 | 117 |
| Gwasanaethau gweinyddol a chanolog | 6,568 | 5,826 |
| Addysg Gyffredinol | 2,320 | 2,191 |
| Costau safleoedd a chostau cynnal a chadw | 6,292 | 7,001 |
| Darpariaeth freiniol | 1,271 | 1,199 |
| Taliadau i Bartneriaid | 527 | 270 |
| Gweithredoedd arlwyo | 206 | 256 |
| Ystadau Brynbuga | 35 | 13 |
| Trafnidiaeth | 791 | 956 |
| | 19,257 | 18,971 |
| Tâl Cydnabyddiaeth yr Archwilwyr - (Mae pob ffi archwilio yn cynnwys TAW) | | |
| Datganiad Ariannol | 56 | 46 |
| Gwasanaethau Eraill | 14 | 14 |
| Archwiliad Mewnol | 50 | 57 |
| Llogi asedau dan brydlesi gweithredu - asedau nad ydynt yn eiddo | 305 | 825 |
| | 19,682 | 19,913 |

## 9. LLOG A CHOSTAU CYLLID ERAILL

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Benthyciadau banc, gorddrafftiau a benthyciadau eraill | 132 | 157 |
| | **132** | **157** |

## 10. ASEDAU DIRIAETHOL SEFYDLOG

Prisiwyd y tir ac adeiladau yn 1993 gan Brisiwr yr Ardal, Casnewydd, ar sail Gwerth y Farchnad Agored ar gyfer Defnydd presennol, neu yn achos adeiladau arbenigol, ar sail Cost Amnewid Ddibrisiedig, i'w hymgorffori yn y fantolen. Cyfanswm y prisiad, ar 1 Ebrill 1993, oedd £29,885,000 a £23,212,000 o hwnnw'n gysylltiedig ag adeiladau a £6,673,000 yn gysylltiedig â thir.

Gan fod y tir a'r adeiladau a etifeddwyd wedi'u trosglwyddo gan yr Awdurdod Addysg Lleol i'r Coleg dan delerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 am gost o £nil, pe na fyddent wedi cael eu prisio, byddant wedi cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol ar gost hanesyddol o £nil. Petai'r asedau hyn yn cael eu gwerthu, byddai'n rhaid i'r Coleg naill ai ildio enillion y gwerthiant i Lywodraeth Cymru neu eu defnyddio yn unol â'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Prisiwyd y tir ac adeiladau a roddwyd ar 21 Gorffennaf 2012 (Parth Dysgu Blaenau Gwent) a 27 Awst 2020 (Parth Dysgu Torfaen) gan Cooke and Arkwright a chawsant eu dibrisio yn ystod y flwyddyn yn unol â pholisi dibrisio'r Coleg.

| | Tir ar Lesddaliad Hir a Rhydd-ddaliadol | Adeiladau | Gosodiadau, Ffitiadau a Chyfarpar arall | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu bris** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2024 | 7,193 | 88,893 | 54,828 | 2,396 | **153,310** |
| Ychwanegiadau | - | - | - | 3,024 | **3,024** |
| Gwarediadau | - | - | (3,784) | - | **(3,784)** |
| Trosglwyddiadau | - | 507 | 1,190 | (1,697) | **-** |
| *Ar 31 Gorffennaf 2025* | **7,193** | **89,400** | **52,234** | **3,723** | **152,550** |
| **Dibrisiad Cronedig** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2024 | 402 | 40,248 | 29,493 | - | **70,143** |
| Costau'r flwyddyn | 12 | 1,341 | 6,388 | - | **7,741** |
| Gwarediadau | - | - | (3,784) | - | **(3,784)** |
| Ailddosbarthu | (339) | 225 | 114 | - | **-** |
| *Ar 31 Gorffennaf 2025* | **75** | **41,814** | **32,211** | **-** | **74,100** |
| ***Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31*** | **7,118** | **47,586** | **20,023** | **3,723** | **78,450** |
| ***Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31*** | **6,791** | **48,645** | **25,335** | **2,396** | **83,167** |

## 11. Asedau Anniriaethol Sefydlog

| | Trwyddedau meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Cost neu bris** | | |
| Ar 1 Awst 2024 | - | - |
| Ychwanegiadau | 1,209 | 1,209 |
| Gwarediadau | - | - |
| *Ar 31 Gorffennaf 2025* | **1,209** | **1,209** |
| **Amorteiddiad Cronedig** | | |
| Ar 1 Awst 2024 | - | - |
| Costau'r flwyddyn | 152 | 152 |
| Gwarediadau | - | - |
| *Ar 31 Gorffennaf 2025* | **152** | **152** |
| ***Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31 Gorffennaf 2025*** | **1,057** | **1,057** |

## 12. BUDDSODDIADAU ANGHYFREDOL

Mae Coleg Gwent Catering Ltd yn un o is-gwmnïau segur Coleg Gwent. Cyfeiriad cofrestredig yr is-gwmni hwn yw - Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 1X. Roedd Coleg Gwent Enterprises Limited yn un o is-gwmnïau segur y Coleg, cafodd ei ddiddymu ar 17 Mehefin 2025.

Mae gan Goleg Gwent ddwy is-elusen, sef *National Union of Mineworkers Marine Lodge Trust Fund mewn cysylltiad â Choleg Addysg Bellach Gogledd Sir Fynwy (525618) a William Evans Prize Fund (mewn cysylltiad â Choleg Amaethyddiaeth Sir Fynwy, USK)* (525619). Mae'r ddwy elusen yn segur. Mae'r Elusennau hyn yn bwriadu gwario eu cyllid elusennol sy'n weddill yn 2025/26 ac wedi hynny bydd y Coleg yn cau'r ddwy elusen.

## 13. ASEDAU GWADDOL

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Balans Arian | - | 64 |
| **Cyfanswm** | **-** | **64** |

## 14. STOCIAU

| | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Stoc bar a ffreutur | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **2** | **2** |

## 15. MASNACH AC EITEMAU DERBYNIADWY ERAILL

| | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn** | | |
| Symiau derbyniadwy masnach | 270 | 270 |
| Blaendaliadau ar alw tymor byr | 20,000 | 21,000 |
| Rhagdaliadau | 920 | 658 |
| Incwm cronnus | 1,062 | 808 |
| **Cyfanswm** | **22,252** | **22,962** |

## 16. CREDYDWYR - SYMIAU SY'N DALADWY YMHEN BLWYDDYN

| | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn** | | |
| Benthyciadau banc (gweler nodyn 18) | 341 | 321 |
| Symiau taladwy masnach | 363 | 72 |
| Symiau taladwy eraill | 2,377 | 2,056 |
| Croniadau | 4,380 | 2,686 |
| Incwm gohiriedig | 1,485 | 5,998 |
| Grantiau llywodraeth a gafwyd ymlaen llaw - Cyfalaf Wedi'i Orhirio | 3,108 | 3,220 |
| **Cyfanswm** | **12,054** | **14,353** |

## 17. CREDYDWYR - SYMIAU SY'N DALADWY AR ÔL MWY NA BLWYDDYN

| | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyciadau banc | 1,853 | 2,194 |
| Incwm gohiriedig - grantiau llywodraeth | 51,685 | 52,630 |
| **Cyfanswm** | **53,538** | **54,824** |

## 18. DYDDIAD AEDDFEDU DYLEDION - GORDDRAFFTIAU A BENTHYCIADAU BANC

Mae benthyciadau banc yn ad-daladwy fel a ganlyn:

| | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyciadau banc sy'n ddyledus ymhen blwyddyn | 341 | 321 |
| Rhwng un a dwy flynedd | 361 | 341 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 790 | 972 |
| Mewn pum mlynedd neu ragor | 702 | 881 |
| **Cyfanswm** | **2,194** | **2,515** |

Mae gan y Coleg dri chyfleuster wedi'u hysbyddu'n llwyr, fel a ganlyn:

| Banc | Swm y Benthyciad £k | Sicrhad | Cyfradd llog | Amserlen dalu |
|---|---|---|---|---|
| National Westminster | 1,125 | Llyfrgell Casnewydd | Yn seiliedig ar SONIA a gyfrifir yn ddyddiol | 96 rhandaliad chwarterol a ddaw i ben Awst 2028 |
| National Westminster | 1,800 | Bloc Celf Crosskeys | Yn seiliedig ar SONIA a gyfrifir yn ddyddiol | 96 rhandaliad chwarterol a ddaw i ben Awst 2028 |
| Lloyds TSB | 2,900 | Ansicredig | 5.584% | 92 rhandaliad chwarterol a ddaw i ben Ionawr 2034 |

## 19. DARPARIAETHAU ERAILL

| | Darpariaeth ar gyfer Cau Safle Pont-y-pŵl £'000 | Darpariaeth Pensiwn Uwch £'000 | Darpariaeth tâl gwyliau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2024 | 184 | 1,213 | 688 | 2,085 |
| Ychwanegiadau yn y flwyddyn | - | - | - | - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Trosglwyddwyd i groniadau yn ystod y flwyddyn | - | - | (688) | (688) |
| Rhyddhau i'r SoCI yn ystod y flwyddyn | (142) | (257) | - | (285) |
| **Cyfanswm** | 42 | 956 | - | 998 |

Mae Darpariaeth Cau Pontypŵl yn berthnasol i Gampws Pontypŵl lle gwnaed y penderfyniad i gau ym mis Mai 2023. Mae'r ddarpariaeth wedi'i wneud ar gyfer gweddill y costau a godir yn ystod blwyddyn ariannol 25/26.

Mae'r ddarpariaeth pensiwn uwch yn ymwneud â chost staff sydd eisoes wedi gadael cyflogaeth y Coleg ac ymrwymiadau i gostau aildrefnu na all y Coleg eu tynnu'n ôl yn rhesymol ar ddyddiad y fantolen.

Y prif ragdybiaethau ar gyfer y cyfrifiad hwn yw:

| | **2025** | **2024** |
|---|---|---|
| Chwyddiant Pris | 2.7% | 2.8% |
| Cyfradd Ddisgownt | 5.5% | 4.8% |

## 20. YMRWYMIADAU CYFALAF AC ERAILL

| | **2025 £'000** | **2024 £'000** |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau a gontractiwyd ar 31 Gorffennaf | 1,086 | 2,309 |
| **Cyfanswm** | **1,086** | **2,309** |

## 21. RHWYMEDIGAETHAU PRYDLESI

Ar 31 Gorffennaf, roedd gan y Coleg isafswm taliadau prydles dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo fel a ganlyn:

| | **2025 £'000** | **2024 £'000** |
|---|---|---|
| **Arall (nid tir ac adeiladau)** | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 312 | 308 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 810 | 1,106 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | 15 |
| **Cyfanswm** | **1,122** | **1,429** |

## 22. RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN GYDA BUDDION WEDI'U DIFFINIO

Mae cyflogeion y Coleg yn perthyn i ddau brif gynllun pensiwn: Y Cynllun Pensiwn Athrawon yng Nghymru a Lloegr (CPA) ar gyfer staff academaidd a chysylltiedig; a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu, dan reolaeth Cyngor Bwrdeistref Torfaen. Mae'r ddau yn gynllun buddion wedi'u diffinio.

Asesir y costau pension yn unol â chyngor actiwarïaid cymwys annibynnol. Prisiad actiwaraidd ffurfiol diweddaraf y CPA oedd mis Mawrth 2020 a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 31 Mawrth 2022.

**Cyfanswm Cost Pensiwn am y flwyddyn**

| | 2025<br>£'000 | 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyfraniadau Cynllun Pensiwn Athrawon | 6,305 | 5,568 |
| Cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | |
| Cyfraniadau a dalwyd | 3,492 | 3,258 |
| Symudiad mewn croniadau/addasiadau LS | 135 | 8 |
| "FRS 102" (credyd)/cost | (654) | (345) |
| Cost i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | 2,973 | 2,921 |
| Cost Pensiwn Uwch i'r Cyfrif Incwm a Gwariant | (111) | 98 |
| Cyfanswm tâl pensiwn | **9,167** | **8,587** |

**Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA)**

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA) yn gynllun buddion wedi'u diffinio, cyfrannol, statudol, a reolir gan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Athrawon 2014. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i athrawon mewn ysgolion a sefydliadau addysg eraill, gan gynnwys Colegau. Mae aelodaeth yn awtomatig ar gyfer athrawon a darlithwyr mewn sefydliadau cymwys. Gall athrawon a darlithwyr optio allan o'r CPA

Mae'r CPA yn gynllun heb ei ariannu ac mae aelodau yn cyfrannu ar sail 'talu wrth fynd' - mae'r cyfraniadau hyn, ynghyd â'r rheiny a wnaed gan gyflogwyr, wedi eu credydu i'r Trysorlys dan drefniadau sy'n cael eu rheoli gan y Ddeddf uchod. Telir am fuddion ymddeol a buddion pensiwn eraill gan gronfeydd cyhoeddus a ddarperir gan y Senedd.

Dan y diffiniadau a nodir yn FRS 102 (28.11), mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr. Ni all y Coleg adnabod ei gyfran o rwymedigaethau ac asedau sylfaenol y Cynllun. Yn unol â hynny, mae'r Coleg yn cyfrifo ei gyfraniadau i'r cynllun fel pe bai'n gynllun gyda chyfraniadau wedi'u diffinio.

Mae prisiad y Cynllun Pensiwn Athrawon yn cael ei wneud yn unol â'r rheoliadau a wneir dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae prisiadau'n rhoi credyd i gyfrif pensiwn yr athrawon gyda chyfran ddychwelyd real, gan gymryd y buddsoddir cyllid mewn buddsoddiadau tybiannol sy'n cynhyrchu cyfradd ddychwelyd real

Cynhaliwyd yr adolygiad actiwaraidd diweddaraf o'r CPA ar 31 Mawrth 2020. Cyhoeddwyd yr adroddiad prisio gan yr Adran Addysg (yr Adran) ym mis Ebrill 2019. Adroddodd y prisiad werth £218 biliwn o rwymedigaethau'r cynllun (pensiynau sy'n cael eu talu ar hyn o bryd a chostau amcangyfrifiedig buddion y dyfodol) ar gyfer gwasanaeth tan y diwrnod dan sylw. Adroddwyd asedau tybiannol gwerth £198 biliwn (cyfraniadau amcangyfrifiedig y dyfodol gyda'r buddsoddiadau tybiannol ar ddyddiad y prisiad) sy'n rhoi diffyg o £22 biliwn i wasanaeth tybiannol a roddwyd.

O ganlyniad i'r prisiad, cafodd cyfraddau cyfraniadau gweithwyr newydd eu gosod ar 28.68% o'r tâl pensiynadwy o fis Medi 2019 ymlaen (o gymharu â 16.48% yn ystod 2018/19. Mae'r Adran Addysg wedi

cytuno i dalu grant cyfraniadau cyflogwyr i bensiynau athrawon i dalu’r costau ychwanegol a cheir y grant hwn o hyd.

**RHWYMEDIGAETHAU PENSIYNAU BUDDION WEDI'U DIFFINIO (PARHAD)**

Ceir copi llawn o adroddiad y prisiad a dogfennau ategol ar wefan Cynllun Pensiwn Athrawon

Cyfanswm y costau pensiwn a dalwyd i’r CPA yn y flwyddyn oedd £6,305k (2024 £5,568k)

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)**

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun buddion wedi'u diffinio, a ariennir, gyda'r asedau yn cael eu cadw mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan Awdurdod Unedol Torfaen. Cyfanswm y cyfraniadau a wnaed yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024 oedd £4,516k, gyda chyfraniadau cyflogwyr yn £3,492k ohono a chyfraniadau gweithwyr yn £1,024k ohono. Y cyfraddau cyfrannu cytunedig ar gyfer blynyddoedd i ddod yw 19.8% i gyflogwyr ac maent yn amrywio rhwng 5.5% a 12.5% i weithwyr, yn dibynnu ar gyflog.

Achos cyfreithiol Virgin Media Limited

Ym mis Mehefin 2023 dyfarnodd yr Uchel Lys yn achos Virgin Media Limited v NTL Pension Trustees. Y dyfarniad oedd bod rhai addasiadau i reolau cynllun pensiwn yn annilys os nad oedd y cadarnhad actiwaraidd cywir yn eu hategu. Apeliwyd y dyfarniad Uchel Lys hwn ac ym mis Gorffennaf 2024, yn ôl dyfarniad unfrydol, cadarnhaodd y Llys Apêl ddyfarniad yr Uchel Lys. Gofynnodd gyrff pensiynau i’r Adran Gwaith a Phensiynau edrych ar ddatrysiadau pragmatig lle nad yw cynlluniau’n gallu dangos tystiolaeth o gadarnhad adran 37 hanesyddol. Dywedodd y Llywodraeth ar 5 Mehefin 2025 y bydd yn cyflwyno deddfwriaeth i fynd i’r afael â’r materion a godir o ddyfarniad cyfreithiol Mehefin 2023. Mae’r llywodraeth yn nodi y bydd “deddfwriaeth yn rhoi’r gallu i gynlluniau pensiynau yr effeithir arnynt i gael cadarnhad actiwaraidd ysgrifenedig bod newidiadau i fuddion hanesyddol yn diwallu’r safonau angenrheidiol” a “fel arall ni effeithir ar rwymedigaethau cynlluniau”. Felly, ni wnaed unrhyw addasiadau i adlewyrchu effaith y dyfarniad hwn yn y datganiadau ariannol hyn.

**Prif Ragdybiaethau Actiwaraidd**

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar brisiad actiwaraidd llawn o'r cyllid ar 31 Mawrth 2022, wedi'i ddiweddaru i 31 Gorffennaf 2025 gan actiwari annibynnol, cymwys.

| | **Ar 31 Gorffennaf 2025** | **Ar 31 Gorffennaf 2024** |
|---|---|---|
| | % | % |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.25 | 3.25 |
| Cyfradd ddisgownt i rwymedigaethau cynlluniau | 5.80 | 5.00 |
| Rhagdybiaeth chwyddiant (CPI) | 2.75 | 2.75 |

Mae'r rhagdybiaethau marwoldeb presennol yn cynnwys digon o gwmpas ar gyfer gwelliant mewn cyfraddau marwoldeb yn y dyfodol. Y disgwyliad oed tybiedig i rywun sy'n ymddeol yn 65 oed ydy:

| | **2025** | **2024** |
|---|---|---|
| ***Ymddeol heddiw*** | **%** | **%** |
| Gwrywod | 20.8 | 20.6 |
| Benywod | 23.4 | 23.4 |
| | | |
| ***Ymddeol mewn 20 mlynedd*** | **2024** | **2024** |
| | **%** | **%** |
| Gwrywod | 21.4 | 21.2 |
| Benywod | 25.0 | 25.0 |

**RHWYMEDIGAETHAU PENSIYNAU BUDDION WEDI'U DIFFINIO (PARHAD)**

Mae'r swm a nodir yn y fantolen o ran y cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio fel a ganlyn:

| | **2025** | **2024** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 119,251 | 106,867 |
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau cynllun | (84,196) | (92,509) |
| Cyfyngiad Terfyn Uchaf Asedau | (35,055) | - |
| **Gwarged Pensiwn Net / (Rhwymedigaeth)** | **-** | **14,358** |

Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr o ran y cynllun fel a ganlyn:

| | **2025** | **2024** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Symiau wedi'u cynnwys yng nghostau staff** | | |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 2,753 | 2,913 |
| Costau'r gwasanaeth blaenorol | 220 | - |
| **Cyfanswm** | **2,973** | **2,913** |

| | **2025** | **2024** |
|---|---|---|
| **Symiau a gynhwysir mewn cost/incwm cyllid** | **£'000** | **£'000** |
| Incwm llog net | 726 | 283 |
| **Cyfanswm** | **726** | **283** |

Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr o ran y cynllun fel a ganlyn:

| | 2025<br>£'000 | 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Swm a Gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall** | | |
| Enillion ar asedau'r cynllun pensiwn | (5,146) | (6,900) |
| Enillion profiad i godi ar rwymedigaethau buddion wedi'u diffinio | (825) | 2,748 |
| Newid mewn rhagdybiaethau ariannol | (13,891) | (3,790) |
| Newid mewn rhagdybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau cynllun | 397 | (186) |
| Cyfyngiad ar gyfer terfyn uchaf asedau | 35,055 | - |
| **Swm a Gydnabyddir mewn (Incwm)/Gwariant Cynhwysfawr Arall** | **15,590** | **(8,128)** |
| | | |
| **Symudiad mewn asedau buddion wedi'u diffinio net yn ystod y flwyddyn** | | |
| Asedau buddion wedi'u diffinio net yn y cynllun ar 1 Awst | 14,345 | 5,589 |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn; | | |
| Costau'r gwasanaeth blaenorol | (220) | - |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | (2,753) | (2,913) |
| Cyfraniadau gan gyflogwyr | 3,492 | 3,258 |
| Llog net ar yr (rhwymedigaeth)/ased diffiniedig | 726 | 283 |
| Enillion actiwaraidd | 19,465 | 8,128 |
| Cyfyngiad Terfyn Uchaf Asedau | (35,055) | - |
| **Gwarged Buddion Diffiniedig Net ar 31 Gorffennaf** | **-** | **14,345** |

**RHWYMEDIGAETHAU PENSIYNAU BUDDION WEDI'U DIFFINIO (PARHAD)**

**Cysoni Asedau a Rhwymedigaethau**

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| **Symudiadau yng ngwerth cyfredol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig** | | |
| Rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio ar ddechrau'r cyfnod | (92,522) | (88,197) |
| Costau'r gwasanaeth blaenorol | (220) | - |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | (2,753) | (2,913) |
| Cost llog | (4,659) | (4,488) |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | (1,024) | (1,017) |
| Buddion a dalwyd | 2,663 | 2,865 |
| Newid mewn rhagdybiaethau ariannol | 13,891 | 3,790 |
| Newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffeg | (397) | 186 |
| Profiad Arall | 825 | (2,748) |
| **Rhwymedigaethau buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod** | **(84,196)** | **(92,522)** |
| | | |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod** | 106,867 | 93,786 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 5,385 | 4,771 |
| Enillion ar asedau'r cynllun | 5,146 | 6,900 |
| Cyfraniadau gan gyflogwyr | 3,492 | 3,258 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | 1,024 | 1,017 |

| | | |
|---|---|---|
| Profiadau eraill | - | - |
| Buddion a dalwyd | (2,663) | (2,865) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod** | **119,251** | **106,867** |

## 23. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i'r Llywodraethwyr, neu ar eu rhan, yn ystod y flwyddyn oedd £649.35. (2024 £745.00). Mae hyn yn cynrychioli treuliau teithio neu gynhaliaeth a threuliau eraill y'u hysgwyddwyd wrth fynd i gyfarfodydd y Llywodraethwyr a digwyddiadau elusennol yn eu rôl swyddogol.

Ni chafodd unrhyw Lywodraethwr unrhyw daliadau a hepgorwyd na chydnabyddiaeth ariannol gan y Coleg yn ystod y flwyddyn (£0 yn 2024).

## 24. SYMIAU A DALWYD FEL ASIANT

| | 2025<br>£'000 | 2024<br>£'000 |
|---|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen | 2 | 54 |
| Grantiau cyrff cyllido - cymorth dewisol i ddysgwyr | 1,100 | 1,140 |
| | **1,102** | **1,194** |
| Talwyd i fyfyrwyr | (1,069) | (1,158) |
| Costau gweinyddol | (33) | (34) |
| Balans ar 31 Gorffennaf, wedi'i gynnwys mewn credydwyr | **-** | **2** |

Mae grantiau cyrff cyllido ar gael i fyfyrwyr yn unig. Rhan fwyaf o'r amser, mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant talu yn unig. Yn yr amgylchiadau hyn, caiff y grantiau a'r alldaliadau perthnasol felly eu heithrio o'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.